

# DŴR CYMRU 2050: ADOLYGU A DIWEDDARU

MAWRTH 2022

# CYNNWYS


**Rhagair** 3

**Cyflwyniad** 4

Cefndir 4

Pwy ydym ni 4

Dull gweithredu 5

Strwythur y ddogfen 5

**Diweddariad ar dueddiadau a risgiau hirdymor** 6

Cyflwyniad 6

Dull 7

Newidiadau allweddol ers 2017 8

Trosolwg o'r risgiau a'r tueddiadau wedi'u diweddaru 9

Casgliadau allweddol 11

**Adolygiad o'r Ymatebion Strategol** 13

Cyflwyniad 13

Ymateb Strategol 1: Diogelu dŵr yfed glân drwy reoli dalgylchoedd 14

Ymateb Strategol 2: Digon o ddŵr i bawb 15

Ymateb Strategol 3: Gwella dibynadwyedd systemau cyflenwi dŵr yfed 16

Ymateb Strategol 4: Diogelu ein hasedau cyflenwi dŵr hollbwysig 17

Ymateb Strategol 5: Sicrhau ansawdd dŵr derbyniol i bob cwsmer 18

Ymateb Strategol 6: Tuag at Gymru Ddi-blwm 19

Ymateb Strategol 7: Gweithio gyda chwsmeriaid a chymunedau 20

Ymateb Strategol 8: Sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid yn fforddiadwy 21

Ymateb Strategol 9: Cefnogi cwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus 22

Ymateb Strategol 10: Ymdrin â'n cwsmeriaid sy'n cael y gwasanaeth gwaethaf 23

Ymateb Strategol 11: Cyflogwr delfrydol 24

Ymateb Strategol 12: Gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf 25

Ymateb Strategol 13: Rheoli systemau dŵr yn ddoeth 26

Ymateb Strategol 14: Cefnogi ecosystemau a bioamrywiaeth 27

Ymateb Strategol 15: Defnyddio natur i leihau perygl llifogydd a llygredd 28

Ymateb Strategol 16: Afonydd a thraethau glanach 29

Ymateb Strategol 17: Diogelu ein hasedau dŵr gwastraff hollbwysig 30

Ymateb Strategol 18: Sicrhau allyriadau carbon sero net erbyn 2040 a hyrwyddo economi gylchol 31

**Crynodeb: Adolygiad o'r Ymatebion Strategol** 32

**Edrych ymlaen at PR24** 35

**Myfyrdodau i gloi** 36

# RHAGAIR

Bum mlynedd yn ôl, gwnaethom lansio dogfen Dŵr Cymru 2050 a oedd yn cynnwys datganiad cenhadaeth, sef 'dod yn wasanaeth dŵr cydnerth a chynaliadwy o'r radd flaenaf er budd cenedlaethau'r dyfodol'. Roedd y strategaeth yn disgrifio ein hymrwymiad i gynllunio ar gyfer y tymor hir, gan ragweld y risgiau a'r cyfleoedd a ddaw i'r amlwg mewn perthynas â'n gallu i ddarparu gwasanaeth gwych i gwsmeriaid a'r amgylchedd nawr neu yn y dyfodol agos, ac ymateb yn rhagweithiol i'r risgiau a'r cyfleoedd hynny. Bydd hyn yn ein galluogi i ymateb mewn ffordd sy'n amserol, yn effeithiol, yn deg ac yn fforddiadwy.

Roedd Dŵr Cymru 2050 yn nodi'r tueddiadau allweddol a wynebwn yn y tymor hir iawn, ar sail gwybodaeth gan arbenigwyr, academyddion a'n partneriaid. Ond sut y gallwn gynllunio ar gyfer 2050 o ystyried mor anodd yw rhagweld y dyfodol ag unrhyw sicrwydd? Yr ateb yw y bydd yn rhaid i ni weithredu'n ddoeth ar sail y wybodaeth sydd ar gael, gan gydnabod yr ansicrwydd drwy gynllunio mewn modd addasol a diweddaru ein safbwynt yn rheolaidd. Dyma pam y gwnaethom ymrwymo i adolygu'r strategaeth bob pum mlynedd, a hwn yw'r adolygiad cyntaf.

Ers i'r ddogfen ymgynghori gael ei chyhoeddi yn 2017, mae nifer o bethau syfrdanol ac annisgwyl wedi digwydd, gan gynnwys Brexit, digwyddiadau tywydd eithafol a phandemig COVID-19, wrth gwrs. Mae'r digwyddiadau hyn wedi profi ein cydnerthedd fel busnes, a hefyd wedi rhoi gwybodaeth i ni a fydd yn ein helpu i baratoi'n well ar gyfer digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol. Hefyd, ceir tystiolaeth bod rhai o'r tueddiadau a nodwyd yn Dŵr Cymru 2050 yn datblygu'n gyflymach na'r disgwyl, sy'n awgrymu bod angen i ni ailystyried ein hymateb, ac ymateb yn gyflymach o bosibl.

Felly, mae'n amser da i fyfyrio ac ystyried i ba raddau y mae ein 18 Ymateb Strategol i'r tueddiadau a'r risgiau hirdymor a wynebwn yn dal yn addas i'r diben, faint o gynnydd rydym wedi'i wneud, yr hyn rydym wedi'i ddysgu, a'r hyn y bydd angen ei newid. Rydym yn cyhoeddi'r Adolygiad hwn wrth i ni ddechrau ar y broses o weithio gyda llywodraethau, rheoleiddwyr, rhanddeiliaid a chwsmeriaid i ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer adolygiad prisiau nesaf Ofwat, PR24, a fydd yn pennu ein hamcanion buddsoddi a lefel biliau ar gyfer 2025-30. Rhaid i'r rhain gael eu pennu yn gadarn yng nghyd-destun ein huchelgeisiau hirdymor a'r heriau sydd o'n blaenau.

Mae'r gwasanaeth y mae Dŵr Cymru yn ei ddarparu yn hanfodol i iechyd pobl a'r amgylchedd ac, yn wir, i sicrhau dim tarfu ar fywyd pob dydd. Mae pandemig COVID-19 wedi tynnu sylw at yr hyn y gallwn ei golli pan fydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth yn tarfu ar y gwasanaethau y byddwn yn aml yn eu cymryd yn ganiataol. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i ddeall y risgiau i'n gwasanaeth, eu lliniaru lle bo modd, a sicrhau eu bod yn parhau i fod ar lefel dderbyniol.

Mae heriau sylweddol o'n blaenau, yn ogystal â chyfleoedd, a bydd angen i ni wneud penderfyniadau anodd ynglŷn â'r blaenoriaethau. Ar yr un pryd, rhaid i ni fod yn ymwybodol o fforddiadwyedd gwasanaethau i'n cwsmeriaid, yn enwedig mewn cyfnod o galedi a chryn ansicrwydd ariannol. Fel cwmni heb gyfranddalwyr, gallwn gael ein harwain gan yr hyn sydd er budd pennaf ein cwsmeriaid a'r amgylchedd yn unig. Rydym yn ymrwymedig i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, ein rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill fel 'Tîm Cymru', a hynny i gyd yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rydym yn eich gwahodd i rannu eich barn ar y ddogfen hon â ni drwy e-bostio welshwater2050@dwrcymru.com. Bydd eich adborth yn ein helpu i lywio ein cynlluniau ar gyfer PR24 a thu hwnt. Diolch am eich cefnogaeth.



**PETER PERRY**
PRIF WEITHREDWR

# CYFLWYNIAD

### CEFNDIR

Y ddogfen hon yw ffrwyth ymarfer a gynhaliwyd dros y 18 mis diwethaf i adolygu a diweddaru Dŵr Cymru 2050, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad yn 2017, ac yn derfynol yn 2018.

Mae'r broses wedi cynnwys bwrw golwg dros yr hyn sydd wedi newid ers 2017, yr hyn y mae hynny'n ei ddweud wrthym am y tueddiadau hirdymor, y cynnydd rydym wedi'i wneud tuag at gyflawni ein hamcanion ar gyfer 2050, ac a yw ein Hymatebion Strategol yn addas i'r diben o hyd. Rydym wedi gweithio gydag arbenigwyr ac academyddion, ac wedi ymgynghori â rhanddeiliaid allanol a thimau mewnol.

Nod yr ymarfer yw sicrhau bod ein strategaeth hirdymor mor effeithiol â phosibl o ystyried y ffordd rydym yn gweld y byd, fel y mae pethau nawr ac fel rydym yn disgwyl iddynt fod yn y dyfodol, gan ystyried y dystiolaeth ddiweddaraf. Yn Dŵr Cymru 2050, gwnaethom ymrwymo i gynnal adolygiad o'r fath bob pum mlynedd, er mwyn cadw'r strategaeth yn gyfredol a chyfrannu at y gwaith o baratoi ein cynlluniau cyflawni hirdymor. Hefyd, mae angen i ni sicrhau ein bod yn adlewyrchu Rhaglen Lywodraethu ddiweddaraf Llywodraeth Cymru, ei Datganiad Blaenoriaethau Strategol i Ofwat, a blaenoriaethau polisi eraill megis yr Economi Sylfaenol.

Bydd y cynlluniau hynny'n rhan o Adolygiad Prisiau nesaf Ofwat, sef PR24, a byddwn yn cyflwyno ein cynigion cynllun busnes i Ofwat ym mis Hydref 2023. Yn y cyfamser, byddwn yn gweithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid er mwyn diffinio'r weledigaeth ar gyfer dŵr yn ein hardal gyflenwi ymhellach, yn ogystal â'r canlyniadau hirdymor yr ydym, drwy gydweithio, yn dymuno eu cyflawni ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd. O gofio na fyddwn yn gallu gwneud popeth ar unwaith, byddwn yn llunio cynllun hirdymor yn nodi'r gwariant allweddol y bydd ei angen ym mhob cyfnod o bum mlynedd, gan arwain at gynllun sydd mor effeithiol ac effeithlon â phosibl ar gyfer 2025-30. Drwy'r cyfan, byddwn yn ystyried safbwyntiau a blaenoriaethau cwsmeriaid, gan roi sylw arbennig i gwestiynau ynghylch fforddiadwyedd ac anghenion cwsmeriaid sydd mewn sefyllfa fregus.



### PWY YDYM NI

Mae Dŵr Cymru yn rhan o Grŵp Glas Cymru. Cwmni nid er elw heb gyfranddalwyr ydym ni, ac felly rydym yn cadw'r holl arian dros ben er budd ein cwsmeriaid. Ni sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff statudol i tua 1.3 miliwn o gartrefi a busnesau yn y rhan fwyaf o Gymru, Swydd Henffordd a rhannau o Lannau Dyfrdwy. Ein gweledigaeth yw 'ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd'.

## DULL GWEITHREDU

Mae'r Adolygiad hwn yn ategu ac yn diweddaru strategaeth wreiddiol Dŵr Cymru 2050 – nid yw'n ei disodli. Erys cenhadaeth Dŵr Cymru 2050 yr un fath: "dod yn wasanaeth dŵr cydnerth a chynaliadwy o'r radd flaenaf er budd cenedlaethau'r dyfodol."

Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i ni fod yn barod i oresgyn y pwysau, y digwyddiadau annisgwyl a'r heriau sydd o'n blaenau ac addasu iddynt, fel y gallwn ddiwallu anghenion cwsmeriaid a'r amgylchedd, heddiw ac ymhell i'r dyfodol.

Felly, yn yr adolygiad hwn, byddwn yn ceisio ateb y cwestiynau allweddol canlynol:

- Sut mae'r amgylchedd rydym yn gweithredu ynddo wedi newid ers 2018? Pa mor wahanol yw hyn i'n disgwyliadau? Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am y gallu i addasu a chydnerthedd?
- Beth yw'r dystiolaeth ddiweddaraf o'r tueddiadau a'r risgiau (yn gadarnhaol ac yn negyddol) sy'n effeithio ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu i gwsmeriaid ac ar yr amgylchedd yn y tymor hir?
- Beth mae'r safbwynt diweddaraf hwn yn ei olygu o ran y ffordd fwyaf effeithiol y gallwn ymateb i'r bygythiadau, y risgiau a'r cyfleoedd hirdymor?
- Felly, beth y dylai'r blaenoriaethau fod ar gyfer ein Cynllun Busnes ar gyfer PR24?

Er mwyn mynd i'r afael â'r cwestiynau hyn, gwnaethom ymgynghori ag amrywiaeth eang o arbenigwyr o'r tu allan i'r busnes, ond gwnaethom hefyd ddibynnu'n helaeth ar wybodaeth ac arbenigwyr y rhai o fewn y busnes sy'n gyfrifol am gyflawni ein nodau hirdymor. Gwnaethom gomisiynu Prifysgol Caerdydd i adolygu'r llenyddiaeth academaidd a thystiolaeth ehangach ynghylch yr amrywiol risgiau a phwysau. Wedyn, gwnaethom adolygu ein Hymatebion Strategol gan ystyried y wybodaeth ddiweddaraf hon, gan benderfynu ym mha feysydd rydym 'ar y trywydd iawn' ac ymа mha rai rydym 'mewn perygl'.

Wrth gynnal yr ymarfer hwn, rydym wedi ystyried y cyd-destun o ran deddfwriaeth a pholisi yng Nghymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Deddf yr Amgylchedd, y Strategaeth Ddŵr i Gymru, a'r Rhaglen Lywodraethu gyfredol. Mae hefyd yn bwysig ystyried y cyd-destun ehangach yn y DU ac Ewrop, a'r cyfraniad y gallwn ei wneud at gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Rydym wedi ymgynghori â chwsmeriaid gan ofyn am eu safbwyntiau ar y gwasanaeth a ddarperir gennym heddiw a'r blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â'u canfyddiadau o lefelau biliau, ac wedi ystyried y safbwyntiau hyn wrth lunio'r adolygiad hwn.

Drwy ddilyn y dull a amlinellir uchod, mae'r adolygiad hwn yn diweddaru Dŵr Cymru 2050, a dylid ystyried y ddwy ddogfen ochr yn ochr â'i gilydd o hyn ymlaen er mwyn rhoi darlun cyflawn o'n strategaeth hirdymor.

## STRWYTHUR Y DDOGFEN

Mae'r adran nesaf yn disgrifio sut yr aethom ati i ddiweddaru ein safbwynt ar y pwysau, y risgiau a'r tueddiadau cyfredol a hirdymor. Mae'n adrodd ar ganlyniadau astudiaeth a gomisiynwyd gan Sefydliad Ymchwil Dŵr Prifysgol Caerdydd i archwilio'r datblygiadau ers 2017 a'r rhagolwg ar gyfer y dyfodol. Wedyn, mae'n crynhoi'r canfyddiadau ar ffurf wyth risg allweddol y byddwn yn ymateb iddynt yn y tymor hir.

Â'r ddogfen yn ei blaen i adolygu'r 18 Ymateb Strategol a nodir yn Dŵr Cymru 2050, gan ddisgrifio'r dystiolaeth ddiweddaraf o'r ffordd y mae'r risgiau a'r tueddiadau'n effeithio ar y busnes ym mhob maes, asesu cynnydd o ran rhoi'r ymateb ar waith, a'r hyn y mae hyn yn ei olygu i'n gwaith cynllunio busnes.

Yn adran olaf y ddogfen, rydym yn ystyried y casgliadau a'r ystyriaethau allweddol gan edrych ymlaen i PR24.

# DIWEDDARIAD AR DUEDDIADAU A RISGIAU HIRDYMOR

## CYFLWYNIAD

Roedd Dŵr Cymru 2050 yn nodi wyth tuedd yn y dyfodol sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf sylweddol ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu yn y tymor hir. Cânt eu nodi eto yma (heb fod mewn trefn benodol). Cawsant eu nodi mewn adroddiad ymchwil a baratowyd gan Brifysgol Caerdydd, yn seiliedig ar gyfres o weithdai 'sganio'r gorwel' arbenigol, ac mewn adolygiad desg helaeth o'r llenyddiaeth berthnasol gan ymgynghorwyr Arup.

Caiff yr heriau a'r cyfleoedd hyn eu disgrifio'n fanwl yn Adran 2 o Dŵr Cymru 2050. Mae'r rhain yn dal yn berthnasol heddiw, nad yw'n syndod o ystyried mai tueddiadau hirdymor yw'r rhan fwyaf ohonynt. Er hynny, bu rhai digwyddiadau annisgwyl a phwysau sylweddol nas rhagwelwyd. Hefyd, mae pum mlynedd ychwanegol o ddata ar gael bellach, a gall hynny fod yn sail i'n safbwynt ar ffactorau hirdymor y ceir ansicrwydd yn eu cylch, megis effaith newid yn yr hinsawdd.

Felly, mae'n bwysig adnewyddu ein safbwynt gwreiddiol ar risgiau a chyfleoedd sy'n effeithio ar ein gwasanaeth, a nodi unrhyw dueddiadau newydd sy'n dod i'r amlwg, cyn ailwerthuso ein Hymatebion Strategol yn unol â hynny. Ar yr un pryd, rydym yn cydnabod y bydd unrhyw ddatganiad ynghylch tueddiadau hirdymor yn anghyflawn ac yn amherffaith, o ystyried yr ansicrwydd cynhenid ynglŷn â'r dyfodol.

**Newid yn yr hinsawdd**

Bydd newid yn yr hinsawdd yn arwain at fwy o ddigwyddiadau glaw eithafol, a allai gynyddu'r risg o lifogydd a llygredd. Rhagwelir y bydd hafau yn sychach ac yn gynhesach, a allai arwain at ddiffyg cyflenwadau dŵr ac, o bosibl, fwy o alw am ddŵr.

**Newidiadau o ran disgwyliadau cwsmeriaid**

Mae'n debygol y bydd disgwyliadau cwsmeriaid yn newid yn syfrdanol, gyda chwsmeriaid yn awyddus i gael gwasanaeth mwy personol a rheolaeth dros eu defnydd o wasanaethau ac yn llai parod i oddef toriadau mewn gwasanaethau. Bydd hyn yn arbennig o wir yn achos cwsmeriaid busnes.

**Newid amgylcheddol**

Gallai rhywogaethau goresgynnol, newid defnydd tir a risg uwch o lygredd amgylcheddol waethygu ansawdd dŵr a lleihau bioamrywiaeth. Fodd bynnag, gallai dulliau cydweithredol o ddarparu gwasanaethau ecosystemau gwell sicrhau canlyniadau amgylcheddol gwell.

**Diogelu seilwaith hanfodol**

Mae seilwaith sy'n heneiddio, cadwyn gyflenwi gyfyngedig a seiberddiogelwch yn bryderon allweddol o ran darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Gallai datblygiadau technolegol sicrhau arbedion effeithlonrwydd sylweddol yn y gwaith o gynllunio, cyflwyno a gweithredu asedau newydd.

**Diogelu iechyd y cyhoedd**

Mae safonau rheoleiddio i ddiogelu ansawdd dŵr yfed yn debygol o barhau i dynhau yn y dyfodol. Bydd gennym rôl i'w chwarae o ran hyrwyddo ffyrdd o fyw iachach a mwy cynaliadwy i'n cwsmeriaid.

**Newidiadau i strwythur yr economi**

Bydd twf yr economi ddigidol sy'n seiliedig ar wybodaeth yn creu cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd mwy effeithlon. Fodd bynnag, gallai hefyd effeithio ar natur cymdeithas a pheri her i ni o ran parhau i ddiwallu anghenion a bodloni disgwyliadau ein cwsmeriaid.

**Newid mewn polisi a newid rheoleiddiol**

Disgwylir newidiadau mewn polisi a threfniadau rheoleiddio o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, datganoli a safonau ansawdd sy'n newid; mae hyn yn creu ansicrwydd ond mae hefyd yn cynnig cyfle i ni helpu i lywio polisi yn y dyfodol. Gallai dulliau rheoleiddio gwell a datblygiadau polisi arloesol ein galluogi i ddarparu gwasanaethau i'n cwsmeriaid mewn ffordd fwy effeithlon.

**Newid demograffig**

Bydd twf y boblogaeth yn arwain at fwy o alw am ddŵr mewn rhai ardaloedd a gallai poblogaeth sy'n heneiddio gynyddu nifer y cwsmeriaid sydd mewn amgylchiadau bregus. Fodd bynnag, daw cyfleoedd i'r amlwg i ddatblygu proffil oedran mwy amrywiol yn y gweithlu.

> “Bydd newid yn yr hinsawdd yn arwain at fwy o ddigwyddiadau glaw eithafol, a allai gynyddu’r risg o lifogydd a llygredd.”



## DULL

Er mwyn diweddaru ein safbwynt ar y tueddiadau hirdymor, yn 2021 gwnaethom gomisiynu Sefydliad Ymchwil Dŵr Prifysgol Caerdydd i gynnal adolygiad o’r dystiolaeth ddiweddaraf a chasglu safbwyntiau arbenigwyr a rhanddeiliaid megis rheoleiddwyr, cynrychiolwyr y llywodraeth, academyddion a chyrff anllywodraethol. Gwnaethom ofyn iddynt ystyried y cwestiynau canlynol:

– Beth mae’r profiad dros y tair i bum mlynedd diwethaf wedi’i ddweud wrthym am yr heriau sy’n wynebu Dŵr Cymru yn y tymor hir a’r cyfleoedd tebygol?
– Beth mae’r llenyddiaeth academaidd berthnasol yn ei ddweud wrthym am y materion allweddol sy’n effeithio ar gydnerthedd busnes Dŵr Cymru?
– Beth yw’r datblygiadau mewn perthynas â phob un o’r tueddiadau allweddol a nodwyd yn Dŵr Cymru 2050?
– Sut mae’r newidiadau hyn yn cyd-fynd â gweledigaeth Dŵr Cymru o ddarparu gwasanaeth dŵr cydnerth o’r radd flaenaf i genedlaethau’r dyfodol?
– Sut y gallai’r tueddiadau, y risgiau a’r cyfleoedd amrywiol hyn gyfuno, gorgyffwrdd ac atgyfnerthu ei gilydd?

Defnyddiodd y tîm fframwaith ‘PESTLE’ i archwilio’r risgiau a’r tueddiadau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol. Nododd 16 o ffactorau risg a gafodd eu sgorio wedyn ar fatrics tebygolrwydd/difrifoldeb. Hefyd, archwiliodd y cysylltiadau a’r cyd-ddibyniaethau rhwng y risgiau hyn. Gellir gweld yr adroddiad **yma**.

## NEWIDIADAU ALLWEDDOL ERS 2017

Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at rai yn unig o'r meysydd allweddol lle y nododd Prifysgol Caerdydd newidiadau sylweddol i'r amgylchedd rydym yn gweithredu ynddo ers 2017, gydag effeithiau posibl ar risgiau, bygythiadau a chyfleoedd, wedi'u categoreiddio yn unol â fframwaith 'PESTLE'. Mae'r adroddiad llawn yn rhoi esboniad mwy cyflawn o'r datblygiadau a'r tueddiadau disgwyliedig ym mhob maes. Noder i'r adroddiad gael ei lunio cyn yr argyfwng diweddar yn Wcráin.

### GWLEIDYDDOL

**Brexit**
Mae'n debygol ei fod wedi cael effaith uniongyrchol drwy'r effaith ar yr economi a tharfu ar y gadwyn gyflenwi; newidiadau rheoleiddiol a deddfwriaethol; a demograffeg o bosibl.

**Adferiad Gwyrdd**
Mae Cymru yn ceisio creu cyfleoedd economaidd sydd hefyd yn mynd i'r afael â materion amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd, a allai greu cyfleoedd i Dŵr Cymru weithio gyda phartneriaid i sicrhau gwelliannau amgylcheddol.

### ECONOMAIDD

**Dirwasgiadau**
Rydym wedi gweld ergyd economaidd fawr o ganlyniad i effaith pandemig COVID-19. Mae hyn yn bygwth gallu rhai cwsmeriaid i dalu eu biliau, a allai arwain at sgil-effeithiau sylweddol ar gyllid y cwmni. Amser a ddengys beth fydd effaith economaidd hirdymor y pandemig.

**Economi gylchol**
Mwy o ffocws ar egwyddorion yr economi gylchol, gyda risgiau a chyfleoedd posibl i weithgareddau ailgylchu bioadnoddau yn arbennig.

**Twf**
Risg y bydd pryderon a chyfyngiadau mewn perthynas â systemau gorlif carthffosydd cyfun a ffosffadau yn cyfyngu ar ein gallu i gefnogi twf a datblygiad economaidd.

### CYMDEITHASOL

**Pandemig**
Effaith economaidd, gymdeithasol a seicolegol fawr mewn sawl maes, yn enwedig patrymau gweithio.

**Demograffeg**
Effaith COVID-19 ar boblogaethau gwledig o'u cymharu â phoblogaethau trefol. Twf twristiaeth fewnol, gydag effaith sylweddol ar y galw am ddŵr a gwasanaethau dŵr.

**Amgylcheddaeth gynyddol**
Mae cwsmeriaid yn dod yn fwyfwy ymwybodol o faterion amgylcheddol, gan gynnwys llygredd a defnydd o ddŵr, ac yn dod yn fwy cefnogol o fentrau amgylcheddol yn gyffredinol.

### TECHNOLEGOL

**Disgwyliadau cwsmeriaid**
Parhau i newid yn gyflym wrth i dechnoleg ddatblygu

**Mesuryddion deallus**
Mae cwmnïau dŵr yn ehangu eu mesuryddion yn raddol, ac mae'r dechnoleg i gefnogi mesuryddion deallus yn gwella.

**Arloesi digidol**
Mae cwmnïau dŵr yn croesawu'r cyfleoedd a gynigir gan wasanaethau cwmwl a dadansoddeg data mawr.

**Seiberddiogelwch**
Risg uchel sy'n tyfu, a allai gael effaith sylweddol ar Dŵr Cymru.

### CYFREITHIOL

**Brexit**
Mae'r newidiadau deddfwriaethol a rheoleiddiol a achosir gan Brexit yn dod yn gliriach. Mae'n bosibl y bydd y dirwedd yn edrych yn wahanol iawn ymhen pum mlynedd, yn enwedig o ran rheoliadau amgylcheddol a chymhellion defnydd tir.

**Llywodraethu a llunio polisïau**
Cymhlethdod cynyddol y strwythur llywodraethu a llunio polisïau, yn enwedig o ran nodi pwerau'n glir rhwng Caerdydd (Cymru) a San Steffan (dros ardal weithredu Dŵr Cymru yn Lloegr).

### AMGYLCHEDDOL

**Newid yn yr hinsawdd**
Tystiolaeth glir bod effeithiau newid yn yr hinsawdd yn cyflymu, yn enwedig o ran llifogydd. Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gynyddol o'r argyfwng bioamrywiaeth.

**Sero net**
Ffocws clir ar yr agenda carbon sero net, gyda thargedau cenedlaethol wedi'u pennu, a datgan argyfwng hinsawdd yng Nghymru.

**Halogyddion**
Tystiolaeth gynyddol o bresenoldeb microblastigion, sylweddau perfflworoalcyl a pholyfflworoalcyl (PFAs), a halogyddion eraill yn yr amgylchedd.

## TROSOLWG O'R RISGIAU A'R TUEDDIADAU WEDI'U DIWEDDARU

Yn dilyn y dadansoddiad uchod, nododd tîm Prifysgol Caerdydd yr 16 o faterion mwyaf tebygol o effeithio ar gydnerthedd Dŵr Cymru dros y 30 mlynedd nesaf, gan arwain at effeithiau ar y busnes a'i weithrediadau ond hefyd ar gymdeithas a'r amgylchedd.

Isod rhoddwn grynodeb byr o safbwynt Prifysgol Caerdydd ar bob un o'r materion hyn:



**1. Newidiadau i batrymau hinsawdd**
Amlder a difrifoldeb cynyddol digwyddiadau tywydd eithafol megis sychder a llifogydd.



**2. Datgarboneiddio ac arferion busnes cynaliadwy**
Y costau adnoddau a'r cyfaddawdau sy'n gysylltiedig â'r newid angenrheidiol tuag at garbon sero net er mwyn cyrraedd targedau 2050, yn ogystal â'r angen am effeithlonrwydd ynni mewn gweithrediadau, arferion economi gylchol, a chadwyni cyflenwi cynaliadwy.



**3. Capiau ar brisiau, fforddiadwyedd a chyfaddawdau posibl**
Y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â tharo cydbwysedd rhwng pryderon fforddiadwyedd cwsmeriaid, capiau ar brisiau a osodir gan reoleiddwyr yn cyfyngu ar fuddsoddiad angenrheidiol, a'r angen i fuddsoddi mewn mentrau megis gwella seilwaith a diogelu'r amgylchedd.



**4. Iechyd y cyhoedd**
Problemau o ran ansawdd dŵr a allai beri risg i iechyd y boblogaeth (gan gynnwys crypto, plwm, PFAS, E. Coli ac ati), gan ystyried effeithiau uniongyrchol epidemigau nawr ac yn y dyfodol ar weithrediadau Dŵr Cymru (e.e. pathogenau feirysol neu facterol).



**5. Newidiadau rheoleiddiol**
Mae Deddf yr Amgylchedd (2021) y DU, a sawl newid rheoleiddiol arall a ddaw'n gyfraith yng Nghymru ar ôl Brexit erbyn 2025, yn debygol o arwain at safonau amgylcheddol tynnach, a fydd yn cynyddu costau monitro a buddsoddi yn sylweddol.



**6. Amrywiadau economaidd mawr**
Integreiddio ac ystyried effaith amrywiadau economaidd mawr yn y dyfodol megis canlyniadau pandemigau, cwympiadau ariannol, neu ddirwasgiadau sylweddol.



**7. Draeniad a Systemau Gorlif Carthffosydd Cyfun**
Rheoli problemau o ran ansawdd dŵr a llygredd, ynghyd â diffyg gweithrediad neu gynhwysedd trin mewn systemau draenio, yn cael eu gwaethygu gan newid yn yr hinsawdd, yn wyneb pwysau a disgwyliadau cynyddol gan y cyhoedd i ddatrys problemau o'r fath.



**8. Halogyddion newydd a pharhaus**
Parhau i ddod o hyd i ffyrdd o ymdrin â hen halogyddion a dod o hyd i ffyrdd o reoli halogyddion newydd, megis microblastigion a chyfansoddion fferyllol, ar yr un pryd. Mae hyn yn cynnwys problemau o ran ailgylchu biosolidau/ailgylchu slwtsh, microlygryddion, dynodi parthau perygl nitradau a newidiadau cysylltiedig posibl i reoliadau.

**9. Disgwyliadau cynyddol cwsmeriaid a rhanddeiliaid**
Parhau i fodloni disgwyliadau cwsmeriaid ynglŷn â lefelau gwasanaeth a thechnoleg wrth iddynt gyflymu, gan sicrhau ar yr un pryd ein bod yn cynnal ymddiriedaeth cwsmeriaid a rhanddeiliaid yn ystod cyfnod o bryderon amgylcheddol cynyddol megis carbon sero net, effaith lefelau ffosffadau a gollyngiadau o systemau gorlif carthffosydd cyfun ar ansawdd dŵr, ailgylchu bioadnoddau, a phryderon eraill rhanddeiliaid a charfanau pwyso.

**10. Ymosodiadau seiber**
Paratoi i ymateb i ymosodiadau seiber posibl a allai beri risg i ddata cwsmeriaid, effeithio ar reolaethau hanfodol, neu effeithio ar y cyflenwad dŵr.

**11. Tarfu ar adnoddau**
Ystyried effaith bosibl tarfu a achosir gan ddigwyddiadau megis Brexit a COVID-19 ar y gadwyn gyflenwi gyfan (gan gynnwys argaeledd cemegion). Hefyd, ystyried diffygion posibl o ran adnoddau llafur a phrinder sgiliau angenrheidiol yn y gweithlu sydd ar gael.

**12. Trosglwyddo dŵr**
Pwysau ar adnoddau dŵr sy'n gysylltiedig â throsglwyddo dŵr rhwng basnau a gwerthuso'r effaith.

**13. Hen seilwaith**
Ystyried y gyfres o risgiau a achosir yn sgil diraddiant ffisegol, biolegol a chemegol seilwaith a/neu ddiffyg cynhwysedd yn nyluniad hen seilwaith. Hefyd, ystyried y risgiau a achosir gan seilwaith digidol sy'n heneiddio.

**14. Cyfrifoldeb amgylcheddol**
Rheoli effaith ein gweithgareddau ar fioamrywiaeth dŵr croyw a'r gwasanaethau ecosystem pwysig a geir o ganlyniad i fioamrywiaeth. Ystyried cyfrifoldeb amgylcheddol cyffredinol Dŵr Cymru yn ei weithrediadau.

**15. Newidiadau demograffig ac ymddygiadol**
Twf gweithio gartref a goblygiadau hynny, a pharatoi ar gyfer poblogaeth sy'n tyfu ac yn heneiddio.

**16. Defnydd tir anghynaliadwy**
Ystyried effaith defnydd tir anghynaliadwy gan gynnwys dwysâd amaethyddol.

Rydym wedi adolygu'r wyth tuedd allweddol a ddisgrifir yn Dŵr Cymru 2050 yng nghyd-destun yr 16 o faterion a allai effeithio ar gydnerthedd a nodwyd yn adroddiad Prifysgol Caerdydd. Rydym wedi diweddaru ein safbwynt mewnol ar y tueddiadau er mwyn cynnwys y wybodaeth a roddir yma yn well, ond rydym o'r farn eu bod yn dal i gynnig crynodeb dilys o'r bygythiadau, y cyfleoedd a'r heriau allweddol sy'n wynebu cydnerthedd ein gwasanaethau yn y tymor hir. Byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa, yn enwedig yn sgil yr argyfwng diweddar yn Wcráin, sydd â goblygiadau i brisiau ynni, seiberddiogelwch a nifer o risgiau hirdymor eraill.

## CASGLIADAU ALLWEDDOL

Yn seiliedig ar yr adolygiad o dueddiadau, risgiau a materion a allai effeithio ar gydnerthedd a nodir uchod, down i'r casgliadau allweddol canlynol, y byddwn yn eu cynnwys yn yr adolygiad o'r Ymatebion Strategol a'n gwaith cynllunio buddsoddiad ar gyfer PR24:

**1. Mae'r pandemig wedi dangos pwysigrwydd diogelu ein gwasanaethau rhag y 'risgiau mawr' a bod yn ystwyth wrth ymateb i 'gyfleoedd mawr'.**
Mae 'elyrch du' yn cyfeirio at risgiau â thebygolrwydd isel a fyddai'n arwain at effeithiau mawr iawn y mae'n anodd eu rhagweld ac y gall fod yn anodd eu cysyniadoli nes iddynt ddigwydd. Hefyd, mae'r awdur John Elkington (2020) yn pwysleisio pwysigrwydd 'elyrch gwyrdd', sef cyfleoedd annisgwyl i greu newid arloesol. Gellir dadlau bod pandemig COVID-19 yn enghraifft o'r ddau: cafodd effaith fawr ar ein gwasanaethau, gan arwain at heriau mawr, ond cynigiodd gyfleoedd i wneud newidiadau cadarnhaol i'r ffordd rydym yn gweithio hefyd. Er bod 'pandemigau' yn risg y soniwyd amdani yn Dŵr Cymru 2050, nid oedd fawr neb yn deall yn iawn beth fyddai'r effaith wirioneddol ar gymdeithas, ar yr economi, nac ychwaith ar Dŵr Cymru.

Beth fydd y digwyddiad nesaf o'r fath? Gan nad oes modd gwybod hyn, rhaid i ni aros yn gydnerth ac yn hyblyg fel busnes o ran y ffordd rydym yn gweithredu. Os a phan ddaw'r digwyddiad nesaf, bydd yn hanfodol bod gennym asedau â digon o adnoddau, gweithlu wedi'i hyfforddi'n dda, ac ymddiriedaeth ein cwsmeriaid.

Fodd bynnag, gallwn wneud mwy i baratoi ar gyfer risgiau hysbys sydd â thebygolrwydd isel ond effaith gymharol uchel. Er enghraifft, gwyddom fod risg gynyddol o ymosodiadau seiber. Mae'r rhain yn mynd yn fwyfwy cyffredin, a byddwn yn mynd yn fwy agored i niwed wrth i ni ddarparu mwy o'n gwasanaethau drwy ddulliau digidol.

Wrth ystyried ein cynlluniau, rhaid i ni ystyried y parodrwydd i dderbyn risg ar gyfer y risgiau hyn a risgiau eraill o'r fath. Dywed cwsmeriaid wrthym eu bod, ers y pandemig, yn fwy ymwybodol o'r posibilrwydd o risgiau mawr a methiannau mewn gwasanaethau, a'u bod yn disgwyl i ni wneud mwy i ddiogelu rhag y 'risgiau mawr' hyn. Mae hyn yn golygu bod parodrwydd cwsmeriaid i dderbyn risg wedi lleihau, a dylem gynllunio i fuddsoddi yn unol â hynny.

**2. Diogelu ein gwasanaeth rhag effeithiau newid yn yr hinsawdd yw un o'n prif flaenoriaethau.**
Mae'n amlwg o'r dadansoddiad uchod mai newid yn yr hinsawdd yw'r brif her a wynebwn, nawr ac yn y dyfodol. Dyma'r risg sydd ar frig y matrics 'effaith/tebygolrwydd' a nodwyd hefyd mai hon yw'r risg â'r mwyaf o gydgysylltiadau a 'sgil-effeithiau' mewn perthynas â risgiau eraill.

Ceir consensws cyffredin bod y digwyddiadau tywydd eithafol rydym wedi'u gweld ers 2017 yn ein hardal ni a thu hwnt, o rewi/dadmer i stormydd glaw a chyfnodau sych hir iawn, yn dystiolaeth o effaith newid yn yr hinsawdd, a bod yr effaith honno'n cyflymu.

O ganlyniad i'r llifogydd ym mis Chwefror 2020 roedd gwaith trin dŵr mawr (Mayhill) wedi gorlifo am nifer o ddiwrnodau, gan beryglu cyflenwadau i filoedd o gwsmeriaid. Cafwyd achosion o orlifo mewn llawer o weithfeydd trin dŵr gwastraff hefyd. Yn 2018 a 2020, gwelsom gyfnodau sych estynedig a achosodd ostyngiad difrifol yn lefelau cronfeydd dŵr.

Mae'r risg i'n hasedau a'r gwasanaethau a ddarperir gennym yn cael eu deall yn gliriach yn y busnes. Bydd angen i ni fuddsoddi er mwyn diogelu'r gwasanaethau hanfodol a ddarperir gennym rhag effeithiau newid yn yr hinsawdd. Heb fuddsoddiad o'r fath, ceir risg sylweddol y bydd perfformiad yn dirywio a gwasanaethau'n methu'n amlach, ac mae cwsmeriaid wedi dweud wrthym na fyddai hynny'n dderbyniol.

Un o gasgliadau allweddol yr adolygiad hwn yw y bydd y tensiwn rhwng y buddsoddiad angenrheidiol mewn cydnerthedd a fforddiadwyedd biliau yn dod o dan fwy o straen mewn adolygiadau o brisiau yn y dyfodol. Felly, bydd angen model o fwy o gydweithio a hyblygrwydd gyda rheoleiddwyr a llunwyr polisïau, gan hwyluso mwy o arloesi dros amserlenni hwy, er mwyn sicrhau gwerth am arian gwell byth.

Rhaid i ni hefyd chwarae ein rhan i liniaru newid yn yr hinsawdd. Fel defnyddiwr ynni mawr, ac fel 'cwmni angori' yng Nghymru, mae dyletswydd arnom i leihau allyriadau carbon. Rhaid i ni arloesi a buddsoddi er mwyn lleihau'r allyriadau hyn, gwneud gwaith ymchwil er mwyn deall ein cyfraniad yn well, ac annog eraill i chwarae eu rhan. Dyma'r peth iawn i'w wneud ynddo'i hun, ond mae hefyd yn bwysig helpu i ddiogelu'r ecosystemau a'r cymunedau rydym yn dibynnu arnynt. Fel tirfeddiannwr, gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol, a dylem wneud hynny.

**3. Mae angen i ni gydweithio er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfle i arloesi ym maes rheoleiddio.**

Rydym wedi gweld newidiadau deddfwriaethol a rheoleiddiol sylweddol ers 2017, a hynny'n bennaf o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r dirwedd reoleiddiol 'ar ôl Brexit' yn dal i ddod i'r amlwg ac nid yw'n glir eto sut y bydd rheoleiddio amgylcheddol yn datblygu. Fodd bynnag, mae'n amlwg y bydd y dulliau rheoleiddio, gorfodi a chyllido ym maes rheoli tir, ac amaethyddiaeth yn benodol, yn mynd drwy'r newid mwyaf radical ers cenhedlaeth a mwy.

I Dŵr Cymru, mae'n amlwg y bydd y datblygiadau hyn yn arwain at risgiau a chyfleoedd mewn perthynas â chyflawni ein hamcanion ar gyfer yr amgylchedd. Ceir pryderon y bydd safonau amgylcheddol sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol yn gostwng, ond mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gynnal y safonau rheoleiddio amgylcheddol a sefydlwyd o dan yr Undeb Ewropeaidd (o leiaf). Mae hefyd yn hollbwysig sefydlu fframwaith llywodraethu, goruchwylio a gorfodi effeithiol i gymryd lle rôl y Comisiwn Ewropeaidd, mewn ffordd sy'n gweithio i Gymru ac i Loegr, a bod y broses o 'gywerthedd' wrth drosi safonau amgylcheddol newydd yn glir.

Bydd rheoliadau newydd neu reoliadau wedi'u diweddaru, megis Cyfarwyddeb Dŵr Yfed newydd, Cyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol newydd rydym yn disgwyl ei gweld yn 2022, ac adolygiadau sydd i ddod o reoliadau eraill megis y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol, y Gyfarwyddeb Slwtsh Carthion a'r Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi, i gyd, os cânt eu trosi ar lefel gywerthedd, yn creu galw sylweddol am fuddsoddiad ychwanegol, a fydd, yn ei dro, yn rhoi pwysau ar filiau mewn cystadleuaeth â blaenoriaethau buddsoddi eraill.

Hefyd, rhagwelir newidiadau mawr yn y ffordd y bydd y llywodraeth yn cynnig cymhellion i dirfeddianwyr, rheolwyr a ffermwyr i reoli tir mewn ffordd gynaliadwy. Bydd y newid tuag at ddefnyddio arian cyhoeddus i gyllido buddiannau cyhoeddus yn creu cyfleoedd i ni fel defnyddiwr 'gwasanaethau cyhoeddus/amgylcheddol', a hefyd fel tirfeddiannwr. Rydym eisoes yn gweithio gyda'n partneriaid i ganfod ffyrdd gwell o brisio buddiannau amgylcheddol, a fydd yn ein helpu i gynllunio buddsoddiad ac yn helpu dulliau cyllido yn y dyfodol.

Gyda chymaint o newid ar y gweill, mae rhanddeiliaid amgylcheddol yn wynebu cyfle prin i ailystyried y ffordd y caiff rheoliadau eu dylunio a'u rhoi ar waith, er mwyn targedu gwelliannau gwirioneddol mewn canlyniadau amgylcheddol yn well, megis ansawdd dŵr afonydd a'r môr. Gallai hyn ein helpu i greu ac adnabod gwerth amgylcheddol gwell o'r buddsoddiadau a wnawn, a galluogi ein rheoleiddwyr i sicrhau bod y cymhellion i gwmnïau dŵr yn fwy cyson â'r canlyniadau amgylcheddol rydym ni a'n cwsmeriaid am eu cyflawni.

Credwn ei bod yn rhaid i ni achub ar y cyfle hwn i ddatblygu ffyrdd mwy effeithiol o weithio, drwy arloesi rheoleiddiol a deddfwriaethol. Er mwyn gwneud hynny, bydd angen i ni gydweithio'n agos â'r llywodraeth a rheoleiddwyr, gyda phawb yn chwarae eu rhan, a bod yn agored i ffyrdd gwahanol o wneud pethau – gan ganolbwyntio ar Ddatblygu Cynaliadwy fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd hefyd angen rhywfaint o ymddiriedaeth, a bod yn agored ac yn hyblyg. Yn ffodus, mae gennym eisoes gydberthnasau cadarn a hanes da o weithio mewn partneriaeth fel hyn yng Nghymru. Rydym yn ymrwymedig i chwarae ein rhan i achub ar y cyfle hwn.

Mae'r uchod i gyd yn awgrymu y bydd y dyfodol yn wahanol iawn i'r gorffennol. Rhaid archwilio modelau gweithredu a rheoleiddio'r gorffennol mewn ffordd feirniadol er mwyn sicrhau eu bod yn 'symud gyda'r oes'. Bydd newid yn digwydd yn raddol, felly mae angen dechrau arni ar fyrder.

Mae angen i ni gasglu mwy o ddata, a bydd yn rhaid rhagweld y gost ychwanegol am hyn, yn enwedig o ystyried yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i gyrff cyhoeddus. Cafodd ein hasedau eu dylunio ar gyfer amodau gweithredu gwahanol iawn i'r rhai sydd gennym heddiw, felly ceir achos o blaid adnewyddu asedau yn gyflymach, yn enwedig o ystyried pwysigrwydd effeithlonrwydd ynni yn wyneb yr her sy'n gysylltiedig â niwtraleiddio carbon.

Yn sail i hyn oll mae ymddiriedaeth ein cwsmeriaid ynom. Mae'n hanfodol cynnal a gwella'r gydberthynas hon. Pan fyddwn yn ymgysylltu â chwsmeriaid, gwelwn eu bod yn deall ac yn gwerthfawrogi'r heriau a wynebwn, ond bod eu dealltwriaeth o'r materion hyn, ar ddechrau'r sgwrs, yn gyfyngedig. Felly, bydd ein strategaeth ymgysylltu â chwsmeriaid yn parhau i fod yn hollbwysig.

# ADOLYGIAD O'R YMATEBION STRATEGOL

## CYFLWYNIAD

Mae'r 18 Ymateb Strategol a amlinellwyd yn Dŵr Cymru 2050 yn disgrifio'r ffordd rydym yn bwriadu ymateb i'r heriau ac achub ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r risgiau presennol a'r tueddiadau yn y dyfodol. Cânt eu grwpio'n dri maes, fel y nodir isod: dŵr yfed, cwsmeriaid a chymunedau a'r amgylchedd.

O ystyried y dystiolaeth ddiweddaraf o risgiau a thueddiadau a nodir uchod ac yn yr adroddiad cysylltiedig gan Brifysgol Caerdydd, mae'n bwysig ein bod yn adolygu ein Hymatebion Strategol er mwyn sicrhau eu bod yn dal i gynnig y sail orau ar gyfer sicrhau y gallwn gyflawni ein cenhadaeth ar gyfer 2050 – dod yn wasanaeth dŵr cydnerth a chynaliadwy o'r radd flaenaf er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Trafododd Bwrdd Dŵr Cymru y mater hwn ym mis Tachwedd 2021 a daeth i'r casgliad nad oedd angen gwneud newidiadau eang i'r prif Ymatebion Strategol, a'i bod yn rhy gynnar i wneud hynny ar ôl dim ond pum mlynedd. Fodd bynnag, dylem ystyried pa newidiadau y gallai fod angen eu gwneud o ran pwyslais, adolygu cynnydd dros y pum mlynedd diwethaf, a thynnu sylw at unrhyw broblemau o ran cyflymder gweithredu y gallem eu cynnwys yn ein gwaith cynllunio ar gyfer PR24.

Felly, rydym wedi cynnal ymarfer i ystyried y cwestiynau canlynol mewn perthynas â'r Ymatebion Strategol:

- Beth oedd diben pob Ymateb Strategol mewn perthynas â'r tueddiadau hirdymor allweddol?
- Beth yw'r dystiolaeth ddiweddaraf o'r datblygiadau sy'n effeithio ar bob ymateb, a pha ddatblygiadau perthnasol sydd wedi digwydd?
- Sut rydym yn ymateb i'r dystiolaeth ddiweddaraf o'r heriau a'r cyfleoedd?
- Pa arloesi sy'n digwydd, a beth rydym yn ei ddysgu o'r gwaith ymchwil diweddaraf?
- Beth yw'r rhagolygon, a beth mae hyn yn ei olygu o ran ein cynlluniau buddsoddi ar gyfer PR24?

Ar y tudalennau canlynol ceir crynodeb o ganlyniadau'r gwaith dadansoddi uchod. Byddwn yn cyflwyno rhagor o fanylion a gwaith dadansoddi fel rhan o'r Cynllun Busnes y byddwn yn ei gyflwyno i Ofwat yn 2023, a fydd yn cynnwys cynigion ynghylch y ffordd rydym yn bwriadu cyflawni ein huchelgeisiau hirdymor hyd at 2050.

| | | |
|---|---|---|
| DŴR YFED | 1 | Diogelu dŵr yfed glân drwy reoli dalgylchoedd |
| | 2 | Digon o ddŵr i bawb |
| | 3 | Gwella dibynadwyedd systemau cyflenwi dŵr yfed |
| | 4 | Diogelu ein hasedau cyflenwi dŵr hollbwysig |
| | 5 | Sicrhau ansawdd dŵr derbyniol i bob cwsmer |
| | 6 | Tuag at Gymru Ddi-blwm |
| CWSMERIAID A CHYMUNEDAU | 7 | Gweithio gyda chwsmeriaid a chymunedau |
| | 8 | Sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid yn fforddiadwy |
| | 9 | Cefnogi cwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus |
| | 10 | Ymdrin â'n cwsmeriaid sy'n cael y gwasanaeth gwaethaf |
| | 11 | Cyflogwr delfrydol |
| | 12 | Gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf |
| | 13 | Rheoli systemau dŵr yn ddoeth |
| YR AMGYLCHEDD | 14 | Cefnogi ecosystemau a bioamrywiaeth |
| | 15 | Defnyddio natur i leihau perygl llifogydd a llygredd |
| | 16 | Afonydd a thraethau glanach |
| | 17 | Diogelu ein hasedau dŵr gwastraff hollbwysig |
| | 18 | Hyrwyddo economi gylchol a threchu newid yn yr hinsawdd |

1

## YMATEB STRATEGOL 1: DIOGELU DŴR YFED GLÂN DRWY REOLI DALGYLCHOEDD

Dalgylchoedd fel llinell amddiffyn gyntaf: Byddwn yn wynebu lefelau uwch o blaleiddiaid, gwrteithiau, maetholion a phathogenau mewn dŵr crai, a mwy o dyrfedd dŵr yn cyrraedd ein gweithfeydd trin dŵr yn sgil amaethu sy'n dwysáu a stormydd mwy garw. Byddwn yn llunio rhaglen eang, arloesol o waith rheoli dalgylchoedd ar y cyd â thirfeddianwyr a phartneriaid.

**Y dystiolaeth ddiweddaraf**
Rydym eisoes wedi dechrau gweld effaith newid yn yr hinsawdd ar nifer o'n dalgylchoedd, yn enwedig tirlithriadau yng nghanol Bannau Brycheiniog a chyffredinrwydd cyfansoddion blas ac arogl (e.e. 2-methyl isoborneol (MIB) a geosmin). Yn fwy cyffredinol, rhagwelir y bydd newid yn yr hinsawdd yn golygu y bydd digwyddiadau tywydd eithafol (sychder a llifogydd) yn digwydd yn amlach, a gall newidiadau cysylltiedig i arferion rheoli tir arwain at ddefnydd ehangach o gemegion e.e. plaladdwyr, gwrteithiau.

Mae'r newid mwyaf sylweddol i bolisi rheoli tir ers mwy na 40 mlynedd ar fin cael ei gyflwyno wrth i ni roi'r gorau i ddilyn Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE a datblygu rheoliadau domestig er mwyn gwneud ein diwydiant ffermio yn fwy cydnerth yn ogystal â mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Gallai hyn achosi newidiadau mawr mewn tueddiadau amaethyddol wrth i ffermydd addasu eu busnesau, megis cynnydd mewn cynhyrchiant garddwriaethol yn arwain at drin tir yn ehangach a defnydd ehangach o blaladdwyr.

**Ein hymateb**
Mae ein dull gweithredu yn cydnabod yr angen i gydweithio er mwyn sicrhau arferion rheoli tir cynaliadwy. Bydd hyn yn ein helpu i ymateb i'r heriau sydd eisoes yn bodoli mewn perthynas â dŵr crai, ac ymadfer ohonynt, a hefyd yn sicrhau y caiff dŵr a'r amgylchedd eu diogelu yn y tymor hir. Byddwn yn rhoi hyn ar waith drwy'r dull sydd eisoes wedi'i fabwysiadu ar gyfer Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog.

Ymhlith y cymunedau dalgylch rydym yn gweithio gyda nhw mae ffermwyr, coedwigwyr a thrigolion eraill, yn ogystal ag ystod o sefydliadau llywodraeth leol a chenedlaethol, diwydiannau, academia, a sefydliadau trydydd sector sy'n dylanwadu ar arferion rheoli tir, polisïau ac ymddygiad. Drwy weithio mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid allweddol, byddwn yn gallu sicrhau buddiannau niferus, cael gafael ar ragor o adnoddau, a sicrhau darbodion maint a fydd yn helpu i achub y blaen ar fuddsoddiadau cyfalaf mwy costus ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi.

**Diweddariad ar ymchwil ac arloesi**
Rydym yn cydweithio'n agos â chymunedau gwyddonol a chymunedau ymchwil i feithrin gwell dealltwriaeth o ansawdd dŵr crai a newidiadau hinsoddol yn ein dalgylchoedd. Rydym ar flaen y gad ym maes ymchwil o ran ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n achosi cyfansoddion blas ac arogl (geosmin ac MIB), ac rydym yn gweithio'n helaeth i ddeall tueddiadau yn y dyfodol o ran rhyddhau deunydd organig naturiol. Rydym hefyd wrthi'n monitro ein ffynonellau dŵr crai am sylweddau perfflworoalcyl a pholyfflworoalcyl (PFAs), neu 'gemegion sy'n para am byth'.

**Crynodeb a rhagolygon**
Rydym yn dal i gredu mai drwy gydweithio â'n partneriaid yn ein dalgylchoedd yw'r ffordd fwyaf effeithiol a buddiol o fynd i'r afael â bygythiadau hirdymor i ansawdd dŵr crai. Rydym yn gwneud cynnydd da, ond rhaid i ni barhau i allu addasu. Mae'r dull hwn yn gofyn am ymrwymiad hirdymor i gyflawni a chynnal canlyniadau, felly bydd yn ymddangos eto yn ein cynlluniau ar gyfer PR24.

2

## YMATEB STRATEGOL 2: DIGON O DDŴR I BAWB

Gan ein bod yn wynebu bwlch cynyddol rhwng y cyflenwad a'r galw am ddŵr oherwydd y twf yn y boblogaeth, a'r hafau sychach yn sgil newid yn yr hinsawdd, byddwn yn defnyddio ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr i sicrhau'r cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw am ddŵr hyd at 2050. Rydym yn bwriadu rhoi camau trosglwyddo dŵr, mesurau rheoli galw a rhaglenni lleihau gollyngiadau ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg, gan gydnabod ar yr un pryd y posibilrwydd y bydd angen cefnogi rhannau eraill o'r DU.

**Y dystiolaeth ddiweddaraf**
O ganlyniad i ddatgan argyfwng hinsawdd ac argyfwng natur yng Nghymru, mae bellach yn ofynnol i ni esbonio sut rydym yn bwriadu cynnal lefelau gwasanaeth i gwsmeriaid a'r amgylchedd. Hefyd, disgwylir i ni fod yn symud tuag at lefelau uwch o gydnerthedd drwy gynllunio ar gyfer risg o sychder o unwaith mewn 500 mlynedd, yn hytrach nag unwaith mewn 250 mlynedd ar hyn o bryd. Mae rheoleiddwyr wedi cyflwyno gwaith Cynllunio Adnoddau Dŵr Rhanbarthol er mwyn annog mwy o rannu adnoddau rhwng cwmnïau, lle bo hynny o fudd i'r ddwy ochr. O ran ein gweithrediadau, rydym wedi profi dau gyfnod estynedig o dywydd poeth a sych (yn 2018 a 2020) sydd wedi ein galluogi i ddiweddaru ein dealltwriaeth o hydroleg dalgylch ledled y rhanbarth. Mae pandemig COVID-19 wedi arwain at newidiadau mewn patrymau defnyddio dŵr, gyda mwy o ddefnydd o ddŵr yn y cartref. Mae hyn, ynghyd â chynnydd mewn twristiaeth fewnol, wedi arwain at lefelau uwch yn ystod cyfnodau brig, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf. Nid yw'n glir i ba raddau y bydd y ffenomen hon yn parhau yn y tymor hir.

**Ein hymateb**
Fel pob cwmni dŵr, rydym yn diweddaru ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr bob pum mlynedd fel sail ar gyfer sicrhau cyflenwadau digonol dros y tymor hir, gan ymgorffori'r rhagolygon diweddaraf o newid yn yr hinsawdd a'r galw ymhlith cwsmeriaid.

Mae rhaglen hirdymor wedi'i blaenoriaethu ar waith i arolygu strwythurau ein hargaeau, gan weithio gyda'n rheoleiddwyr, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd a'u bod yn bodloni gofynion rheoliadol newydd.

**Diweddariad ar ymchwil ac arloesi**
Mae ein gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar reoli galw a chyflenwi dŵr. Rydym yn ymchwilio i'r technolegau diweddaraf ym meysydd lleihau gollyngiadau a mesuryddion cartref, yn gweithio i ddeall ymddygiad ein cwsmeriaid yn well, ac yn cysylltu'r rhain drwy ddull Prosiect Cartref, sy'n mynd i'r afael â gollyngiadau a'r defnydd o ddŵr yn y cartref. Rydym wedi buddsoddi mewn technegau modelu newydd ar yr ochr gyflenwi, o hydroleg stocastig i fodelau efelychu systemau er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o effeithiau tebygol cyfnodau o sychder a newid yn yr hinsawdd ar ein hadnoddau dŵr.

**Crynodeb a rhagolygon ar gyfer PR24**
Mae effaith y pandemig a'r cynnydd mewn twristiaeth fewnol, ar ben y newid yn yr hinsawdd, yn peri her wrth i ni gynllunio adnoddau dŵr. Bydd symud tuag at gynllunio ar gyfer risg o sychder o unwaith mewn 500 mlynedd a lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd ymhellach, yn ogystal â thwf yn y boblogaeth, yn enwedig yn Ne-ddwyrain Cymru, yn arwain at anghenion buddsoddi ychwanegol. Bydd ein cynllun ar gyfer 2024 yn amlweddog ac yn gallu addasu i'r amrywiaeth eang o bethau sy'n ansicr ynglŷn â'r dyfodol, drwy gyfuniad o fuddsoddi mewn mesurau i reoli'r galw megis mesurau uchelgeisiol i leihau gollyngiadau, annog mwy o bobl i ddefnyddio mesuryddion, a gwella ein hadnoddau dŵr a'n rhwydweithiau cyflenwi er mwyn gwneud y system yn fwy cydnerth.

3

YMATEB STRATEGOL 3:
GWELLA DIBYNADWYEDD SYSTEMAU CYFLENWI DŴR YFED

Gan ein bod yn wynebu risg gynyddol o doriadau oherwydd dŵr ffo amaethyddol, digwyddiadau tywydd eithafol, terfysgaeth ac ymosodiadau seiber, byddwn yn ychwanegu mwy o hyblygrwydd a chyfleoedd integreiddio i'n systemau trin a chyflenwi dŵr.

**Y dystiolaeth ddiweddaraf**
Ers 2017 rydym wedi gweld nifer o ddigwyddiadau tywydd eithafol – tystiolaeth o effaith newid yn yr hinsawdd. Mae'r bygythiad o ymosodiadau seiber yn tyfu hefyd (gweler YS13). Lle bo'r effeithiau hyn yn achosi methiannau asedau, gallent herio gallu ein rhwydwaith i symud dŵr i'r mannau lle mae ei angen. Dyma pam mae angen i ni wneud ein rhwydweithiau'n fwy hyblyg a chydnerth.

**Ein hymateb**
Rydym yn adolygu ein rhaglen fuddsoddi hirdymor ar hyn o bryd, er mwyn gwneud ein rhwydwaith cyflenwi dŵr yn fwy cydnerth. Ein nod yw lleihau nifer y gweithfeydd trin dŵr erbyn 2050, a bod y gweithfeydd hynny'n fwy cydnerth, ac rydym wedi dechrau gweithio ar ddatblygu cynlluniau ar gyfer gwaith trin dŵr mawr newydd yn Ne-ddwyrain Cymru i ddisodli tri safle hŷn. Byddwn yn gwella rhyng-gysylltedd o fewn parthau adnoddau dŵr a rhyngddynt er mwyn lleihau nifer y cwsmeriaid sy'n cael eu cyflenwad o un ffynhonnell, gan ganolbwyntio ar boblogaethau sy'n rhy fawr i gael eu cyflenwad o danceri.

**Diweddariad ar ymchwil ac arloesi**
Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn technoleg 'glyfar' er mwyn rheoli ein rhwydweithiau dŵr yn fwy effeithiol. Dros y tymor hir credwn fod potensial i archwilio dulliau trin dŵr rhatach, a datblygu technegau twnelu newydd ar gyfer gosod a dargyfeirio prif bibellau.

**Crynodeb a rhagolygon ar gyfer PR24**
Rydym yn datblygu rhaglen fuddsoddi hirdymor wedi'i blaenoriaethu, gan ddechrau â PR24, er mwyn gwneud ein systemau cyflenwi dŵr yn fwy cydnerth. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn lliniaru'r risgiau cynyddol a achosir gan newid yn yr hinsawdd a bygythiadau eraill, a hefyd er mwyn mynd i'r afael â gwendidau yn ein rhwydwaith nad oes modd eu hamddiffyn mwyach. Mae'r gwelliannau cydnerthedd hyn mewn perygl o gael eu gwasgu ym mhob adolygiad o brisiau gan wariant y tybir bod mwy o frys amdano. Hefyd, mae'n anos eu cyfiawnhau gan ddefnyddio profion costau a manteision safonol, gan ei bod yn anodd rhoi gwerth ar fanteision lleihau risg. Serch hynny, bydd y rhaglen hon yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gyflawni ein huchelgais i sicrhau bod gennym wasanaeth dŵr cydnerth o'r radd flaenaf erbyn 2050.

4

## YMATEB STRATEGOL 4: DIOGELU EIN HASEDAU CYFLENWI DŴR HOLLBWYSIG

Gan ein bod yn wynebu risgiau cynyddol o darfu (er enghraifft, o ddigwyddiadau tywydd garw yn sgil newid yn yr hinsawdd a mwy o ddibyniaeth ar dechnoleg) a gostyngiad yng ngoddefiant cwsmeriaid o doriadau yn y cyflenwad, byddwn yn gwella cydnerthedd asedau dŵr hollbwysig lle ceir canlyniadau difrifol os byddant yn methu.

**Y dystiolaeth ddiweddaraf**

Mae tywydd eithafol yn mynd yn fwy garw ac yn digwydd yn amlach. Ym mis Chwefror 2020, yn ystod Storm Dennis, gwnaeth gwaith trin dŵr Mayhill yn Nhrefynwy orlifo, a bu'n rhaid i'r trigolion gael eu cyflenwad o danceri a dŵr potel. Mae hyn yn enghraifft o un o'r heriau cynyddol niferus o ran cydnerthedd wrth i newid yn yr hinsawdd fynd rhagddo. Nid yn unig y mae hyn yn bygwth parhad gwasanaethau, ond mae'n bygwth yr asedau eu hunain hefyd.

Ymhlith y bygythiadau eraill i asedau hollbwysig mae ymosodiadau seiber, terfysgaeth a chyflwr ffisegol. Mae ymosodiadau seiber yn datblygu'n gyflym ac maent eisoes wedi effeithio ar gyfleustodau dŵr dramor. Hefyd, mae'r risg o darfu ar adnoddau yn uwch yn dilyn Brexit.

Gwnaeth methiant paneli concrit yn yr argae yng nghronfa ddŵr Toddbrook yn Swydd Derby yn 2019, a methiannau argaeau eraill yn UDA yn 2020, dynnu sylw at y risgiau i strwythurau argaeau a achosir gan law trwm a'r newid yn yr hinsawdd, er mai gwaith dylunio a chynnal a chadw gwael oedd y prif resymau yn yr achosion hyn. Ymhlith yr asedau hollbwysig eraill mae prif bibellau, cronfeydd gwasanaeth a gorsafoedd pwmpio.

**Ein hymateb**

Yn wyneb y bygythiadau cynyddol, rydym yn adolygu ein cofrestr o asedau hollbwysig ac yn blaenoriaethu buddsoddiadau i ddiogelu asedau rhag bygythiadau ffisegol a bygythiadau seiber. Rydym yn adolygu ein rhaglen o waith uwchraddio cydnerthedd i gynnwys uwchraddio diogelwch, amddiffyn rhag llifogydd, cydnerthedd pŵer a chyfuno prif bibellau strategol sy'n croesi o dan afonydd, ffyrdd a rheilffyrdd. Rydym hefyd yn diweddaru ein cynlluniau wrth gefn ar gyfer safleoedd.

**Diweddariad ar ymchwil ac arloesi**

Rydym yn cynnal arolygon llifogydd er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'r risgiau i'n hasedau yn sgil llifogydd mawr, a hefyd yn edrych ar effaith newid yn yr hinsawdd ar ein seilwaith yn fwy cyffredinol. Rydym yn ystyried argymhellion Asesiad Seilwaith Cenedlaethol y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol (Tachwedd 2021) a byddwn yn ymgysylltu â Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ar y cyd-ddibyniaethau â darparwyr seilwaith allweddol megis pŵer a thrafnidiaeth er mwyn deall y goblygiadau i systemau.

**Crynodeb a rhagolygon ar gyfer PR24**

Gan fod y risgiau sy'n wynebu ein hasedau hollbwysig yn cynyddu, byddwn yn rhoi mesurau ar waith i atal y risgiau i'r gwasanaeth hanfodol a ddarperir gennym rhag tyfu. Mae'r ffocws ar ddigwyddiadau tebygolrwydd isel a allai gael effaith fawr ac estynedig ar argaeledd dŵr i gwsmeriaid. Mae'n anodd mesur y risg ond rydym yn gwella ein dealltwriaeth ohoni, ac yn nodi meysydd lle y gall y risg a wynebwn fod yn annerbyniol. Mae'n debygol y bydd yr ymyriadau y mae'r mwyaf o frys amdanynt yn y maes hwn yn cael eu cynnwys yn ein cynlluniau ar gyfer PR24.

5

## YMATEB STRATEGOL 5: SICRHAU ANSAWDD DŴR DERBYNIOL I BOB CWSMER

Mae prif bibellau dŵr sy'n heneiddio a mwy o ddigwyddiadau tywydd eithafol yn cynyddu'r risg y bydd y dŵr a gyflenwir wedi'i afliwio neu y bydd blas drwg arno dros dro. Eir i'r afael â hyn drwy waith wedi'i dargedu i osod prif bibellau newydd yn lle rhai haearn. Rydym yn anelu at gyflawni 0.8-1.3 o gysylltiadau fesul 1,000 o'r boblogaeth erbyn 2050.

**Y dystiolaeth ddiweddaraf**
Rydym yn gweld cynnydd yn y cyfansoddion cemegol mewn dŵr crai sy'n gysylltiedig â'r broblem hon, a allai fod o ganlyniad i newidiadau mewn patrymau glawio. Mae tywydd sych a gwlyb eithafol yn cynyddu symudiad y ddaear ac yn achosi tirlithriadau, a all achosi problemau hefyd.

Ceir rhai arwyddion bod disgwyliadau cwsmeriaid yn newid a'u bod yn mynd yn llai parod i oddef hyd yn oed fethiannau cymharol fach mewn gwasanaethau fel hyn.

Mae disgwyliadau rheoleiddwyr yn datblygu hefyd. Mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed yn disgwyl i ni gyflawni dwbl perfformiad cyfartalog cyfredol y diwydiant erbyn 2030. Wedi dweud hynny, mae'n cydnabod ein bod yn gwneud gwelliannau ac yn gefnogol o'r ffordd rydym yn gweithredu.

**Ein hymateb**
Lle bo modd, rydym yn cymryd camau 'yn y tarddle' i fynd i'r afael â'r broblem hon, megis drwy wella ansawdd dŵr crai (gweler YS1), a thrin dŵr i gael gwared ar y manganîs sydd ynddo. Fodd bynnag, yn y pen draw, bydd angen gosod prif bibellau newydd yn lle rhai haearn bwrw dros y tymor hir er mwyn i ni fod yn gyson â gweddill y diwydiant a bodloni disgwyliadau'r Arolygiaeth Dŵr Yfed mewn perthynas â'r mesur perfformiad hwn. Yn ystod 2020-25, rydym yn disgwyl gosod 166 cilomedr o bibellau newydd yn lle rhai haearn bwrw. Fodd bynnag, bydd angen i'r gwaith hwn gyflymu'n sylweddol er mwyn i ni gyrraedd y nod erbyn 2050.

**Diweddariad ar ymchwil ac arloesi**
Mae'r wyddoniaeth ynghylch problemau afliwio, blas ac arogl yn gymhleth. Rydym yn dysgu mwy am yr achosion a'r ffordd y maent yn newid, megis effaith daeareg, a'r manganîs sydd mewn dŵr crai yn benodol, ar afliwiad. Fodd bynnag, mae ein dealltwriaeth yn anghyflawn o hyd ac rydym yn parhau i weithio yn y maes hwn gyda'n partneriaid gwyddonol.

Rydym hefyd yn parhau i weithio gyda grŵp rhagweld afliwio mewn systemau dosbarthu (PODDS) ym Mhrifysgol Sheffield ar y ffyrdd y mae manganîs yn cronni mewn haenau y tu mewn i brif bibellau.

Rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran technegau glanhau pibellau ond, hyd yma, nid oes darganfyddiadau newydd wedi cael eu gwneud.

**Crynodeb a rhagolygon ar gyfer PR24**
Mae cyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer 2050 ynghylch y mesur hwn yn her fawr i'r busnes. Nid yw'r gwaith o osod prif bibellau newydd yn lle'r rhai haearn bwrw yn mynd rhagddo'n ddigon cyflym ac mae'n debygol na fydd y gwaith yn fforddiadwy gan mai'r gost amcangyfrifedig am wneud y cyfan erbyn 2050 yw £2.8bn. Dim ond hyn a hyn o lwyddiant y gall datrysiadau eraill, megis tynnu manganîs, ei gynnig i ni, felly byddwn yn parhau i chwilio am ddarganfyddiadau technolegol gan barhau â'r gwaith ar gyflymder sy'n fforddiadwy i'r cwsmeriaid ar yr un pryd. Byddwn yn ystyried yn ofalus pa gynnydd y gallwn ei wneud yn y maes hwn yn ystod cyfnod Cynllun Rheoli Asedau 8 o ystyried y pwysau croes ar ein cynlluniau busnes ar gyfer PR24.

6

## YMATEB STRATEGOL 6: TUAG AT GYMRU DDI-BLWM

Mae gennym gyfle i helpu i wella iechyd y cyhoedd, a chynnig gwaith wedi'i dargedu i osod pibellau cyfathrebu a chyflenwi newydd yn lle rhai plwm, fel rhan o ymdrech gymdeithasol ehangach i fynd i'r afael â'r lefelau o blwm mewn dŵr yfed.

**Y dystiolaeth ddiweddaraf**
Gwyddys bod plwm yn wenwyn cronnus i fodau dynol, a bod ffetysau a phlant hyd at 6 oed yn arbennig o agored i'w effeithiau amrywiol (Sefydliad Iechyd y Byd, 2011). Ar lefel fyd-eang, mae rheoliadau'n symud tuag at ddim plwm mewn dŵr yfed. Yng Nghymru, mae Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2018 bellach yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr, pan gânt eu hysbysu, osod pibellau dŵr newydd yn lle rhai plwm sy'n eiddo iddynt, os bydd perchennog eiddo yn gosod pibell newydd yn lle ei ran ef o bibell gyflenwi blwm. Mae'r safon ynghylch crynodiad plwm wedi tynhau o 15 i 10 microgram y litr, a gall dynhau ymhellach i 5 microgram y litr.

Mae'r mater hwn yn gysylltiedig ag amcanion y llywodraeth i fynd i'r afael ag amddifadedd a'r gwahaniaethau o ran cyfleoedd mewn cymdeithas. Mae Rhaglen Lywodraethu gyfredol Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i 'ddileu anghydraddoldeb o bob math' a 'gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt'.

**Ein hymateb**
Er nad oes rhwymedigaeth arnom i osod pibellau newydd yn lle rhai plwm ein cwsmeriaid, credwn ei bod yn iawn i ni helpu i fynd i'r afael â phroblem gymdeithasol. Bwriedir i 7,000 o bibellau newydd gael eu gosod yn lle rhai plwm ein cwsmeriaid yn ystod 2020-25 am gost o tua £14 miliwn a gaiff ei rhannu rhwng biliau ein holl gwsmeriaid.

Bydd mwy na 200,000 o bibellau plwm ar ôl i'w newid am gost o tua £500 miliwn. Amcangyfrifwn y byddai angen newid tua 35,000 o bibellau plwm fesul Cynllun Rheoli Asedau er mwyn cyflawni hyn. Hyd yn oed lle nad ydym yn codi tâl, rydym yn gweld cryn dipyn o amharodrwydd ymhlith cwsmeriaid i fanteisio ar y cynnig o ystyried y tarfu cysylltiedig, a bydd angen i ni ystyried hyn yn ein strategaeth hirdymor.

**Diweddariad ar ymchwil ac arloesi**
Wrth i ni fwrw ymlaen â'n rhaglen wedi'i blaenoriaethu i osod pibellau newydd yn lle rhai plwm, rydym yn dysgu mwy am agweddau cwsmeriaid a'r hyn sy'n well ganddynt, a'r ffyrdd gorau o fynd i'r afael â'r mater hwn yn y tymor hir. Byddwn yn rhannu'r hyn rydym wedi'i ddysgu â chwmnïau eraill, rhanddeiliaid a rheoleiddwyr, ac yn ei ystyried wrth ddatblygu ein cynlluniau hirdymor.

**Crynodeb a rhagolygon ar gyfer PR24**
Mae'n amlwg nad yw'r gwaith o osod pibellau newydd yn lle rhai plwm yn digwydd yn ddigon cyflym i sicrhau nad oes dim pibellau plwm erbyn 2050. Byddwn yn ceisio gwneud y gwaith hwn yn gyflymach yng nghyfnod y Cynllun Rheoli Asedau nesaf, gan ganolbwyntio ein hymdrechion ar ardaloedd o dlodi sylweddol a dechrau drwy sicrhau 'parthau cyflenwi dŵr di-blwm'.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Arolygiaeth Dŵr Yfed, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill wrth i ni fireinio ein dull a datblygu ein cynlluniau buddsoddi ar gyfer 2025-30 a thu hwnt yn y maes hwn.

7

## YMATEB STRATEGOL 7: GWEITHIO GYDA CHWSMERIAID A CHYMUNEDAU

Byddwn yn gweithio gyda chwsmeriaid a chymunedau i lunio atebion ar y cyd, rhannu gwybodaeth a chefnogi mentrau sy'n lleihau'r defnydd o ddŵr, yn atal achosion o gamddefnyddio carthffosydd, ac yn sicrhau buddiannau ehangach i gymunedau a'r amgylchedd.

**Y dystiolaeth ddiweddaraf**
Ers cyhoeddi Dŵr Cymru 2050, mae amlygrwydd yr agenda amgylcheddol, gymdeithasol a llywodraethu wedi tyfu'n sylweddol. Mae'r adroddiad diweddaraf ar Fynegai Boddhad Cwsmeriaid y DU gan y Sefydliad Gwasanaeth Cwsmeriaid (Gorffennaf 2021) yn nodi bod diben sefydliadol yn bwysicach fyth er mwyn llwyddo, a bod effaith amgylcheddol a chymdeithasol yn gynyddol berthnasol i'r hyn sydd gan sefydliad i'w gynnig i gwsmeriaid. Roedd Baromedr Ymddiriedaeth Edelman 2021 yn dweud bod pobl bellach yn disgwyl i fusnesau lenwi'r bwlch a adewir gan y llywodraeth pan fydd yn methu datrys problemau cymdeithasol, ac y dylai Prif Swyddogion Gweithredol arwain newid.

Hefyd, cyfyd cyfleoedd wrth i'r cyhoedd ddod yn fwy ymwybodol o faterion amgylcheddol a gwerthfawrogi'r amgylchedd naturiol yn fwy.

**Ein hymateb**
Rydym yn parhau â'n rhaglenni hirsefydlog ym maes addysg ac ymgysylltu â chwsmeriaid er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth a ddarperir gennym a'r rôl y gall cwsmeriaid eu hunain ei chyflawni er mwyn sicrhau gwasanaeth cynaliadwy a chosteffeithlon. Ers 2017, rydym wedi gwneud cynnydd da o ran helpu cwsmeriaid i ddod yn fwy cyfarwydd â'r cwmni, ac mae cydnabyddiaeth o'n statws 'nid er elw' wedi tyfu'n sylweddol. Erbyn hyn, rydym yn bwriadu mynd ymhellach a bod yn fwy rhagweithiol wrth gyfleu'r cyfraniad a wneir gennym ar faterion amgylcheddol a chymdeithasol a materion yn ymwneud â llesiant.

Achosodd y pandemig her enfawr i'r busnes, ond gwnaeth cydberthnasau gwaith agos â'n cwsmeriaid a'n cymunedau, yn ogystal â rhwydwaith o fwy na 300 o sefydliadau partner, ein helpu i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol. Bu'n rhaid i ni symud llawer o'n gweithgareddau addysg, ymgysylltu ac ymgynghori ar-lein, gan hwyluso ffyrdd newydd o gyrraedd cymunedau, a gwella ffyrdd o weithio ar sawl cyfrif.

**Diweddariad ar ymchwil ac arloesi**
Rydym wedi bod yn datblygu gwasanaethau digidol newydd, ac wedi cynnwys cwsmeriaid i raddau helaeth wrth eu dylunio a'u rhoi ar waith. Rydym hefyd yn gweithio gyda'n Grŵp Her Cwsmeriaid i greu hybiau cyngor rhanbarthol i gwsmeriaid.

Hefyd, rydym wedi bod yn ehangu ein dull arloesol 'Cymunedau Cydnerth', hyd yn oed yn ystod y pandemig. Yn ystod 2020 a 2021 rhoddwyd y dull ar waith yn y Rhyl ac yn Rhymni/Bargoed, a chredwn ein bod, drwy ddefnyddio gwasanaethau ar-lein, wedi cael o leiaf yr un faint o effaith â Chymuned Gydnerth gyntaf Rhondda Fach. Rydym yn bwriadu dechrau prosiect Cymuned Gydnerth newydd yng Nghasnewydd yn 2022.

**Crynodeb a rhagolygon ar gyfer PR24**
Mae'r Ymateb Strategol hwn yn disgrifio'r ffordd rydym eisoes yn gweithio'n barhaus gyda chwsmeriaid a chymunedau ac, fel y cyfryw, ni ddisgwylir y bydd angen buddsoddiad newydd sylweddol yn PR24. Mae'r fath ymgysylltu yn ein helpu i fynd i'r afael â heriau ehangach wrth i ni geisio cyflawni ein nodau ar gyfer 2050. Mae'n debygol y daw'r dull gweithredu hwn yn bwysicach fyth wrth i ddisgwyliadau cwsmeriaid newid, ac wrth i ni geisio lleihau costau ac allyriadau carbon. Rhaid i ni barhau i ddatblygu ymdeimlad ein cwsmeriaid o stiwardiaeth dros adnoddau dŵr a'r amgylchedd, a dangos mai eu gwasanaeth dŵr nhw yw Dŵr Cymru yn y pen draw.

8

## YMATEB STRATEGOL 8: SICRHAU BOD Y GWASANAETHAU A DDARPERIR I GWSMERIAID YN FFORDDIADWY

Gydag anghydraddoldeb, dyled a thlodi ar gynnydd rhaid i ni geisio sicrhau bod ein gwasanaethau yn parhau i fod yn fforddiadwy i bob cwsmer: o ran biliau cyfartalog ac o ran y rhai sydd ar dariffau cymdeithasol. Byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth gorau mewn ffyrdd cynyddol arloesol ac effeithlon ac yn trosglwyddo'r arbedion hyn i'n cwsmeriaid.

**Y dystiolaeth ddiweddaraf**
Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cynyddodd anghydraddoldeb incwm 2.2 pwynt canrannol yn y 10 mlynedd hyd at 2020. Ffigur 2020, sef 36.3%, yw'r uchaf ers 2010. Yng Nghymru, roedd 31% o blant yn byw mewn tlodi incwm cymharol rhwng 2017 a 2020, sy'n uwch na'r tair blynedd flaenorol. Mae'r ffigur ar gyfer oedolion o oedran gweithio wedi aros yn sefydlog ond mae'n dal yn uwch na'r hyn a welir yng ngwledydd eraill y DU.

Nid yw effaith y pandemig ar incwm aelwydydd yn gwbl glir eto. Mae ein gwaith ymchwil ein hunain yn dangos bod llawer o bobl o'r farn bod y gwaethaf eto i ddod. Ymhlith pobl ar yr incymau isaf y mae'r pryder ar ei uchaf. Mae Sefydliad Bevan wedi rhybuddio y bydd dyledion aelwydydd yn saethu i fyny o ganlyniad i COVID-19 (Debt in the Pandemic, Medi 2021). Mae 'argyfwng costau byw' gwirioneddol wedi dod i'r amlwg yn 2022, gyda chwyddiant ar gynnydd a thwf sydyn yng nghostau biliau ynni.

**Ein hymateb**
Er bod y rhan fwyaf o gwsmeriaid o'r farn bod biliau'n fforddiadwy ac yn werth da am arian, rydym yn hynod ymwybodol o amgylchiadau ariannol ein cwsmeriaid, yn enwedig yn ystod y pandemig ac ar ôl hynny. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n cwsmeriaid i asesu eu blaenoriaethau a'r lefel biliau a ragwelir dros y tymor hir. Rhaid i ni hefyd sicrhau ein bod yn parhau i fod yn apelgar i fuddsoddwyr, er mwyn lleihau costau ariannu. Ein huchelgais yw gostwng lefel y bil cyfartalog mewn termau real erbyn 2050.

I gwsmeriaid sy'n ei chael hi'n anodd talu, mae gennym 'dariff cymdeithasol' sydd ar flaen y gad yn y diwydiant ac sy'n golygu biliau is i gwsmeriaid cymwys a llai o filiau heb eu talu nag a fyddai fel arall. Ddiwedd mis Tachwedd 2021, roedd 147,000 o aelwydydd yn cael cymorth ariannol gan Dŵr Cymru.

**Diweddariad ar ymchwil ac arloesi**
Yn 2021, arweiniodd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr adolygiad annibynnol o fforddiadwyedd dŵr ar ran Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Ymhlith y cynigion roedd symud i un tariff cymdeithasol ar gyfer Cymru a Lloegr. Rydym yn ymgysylltu'n agos â Llywodraeth Cymru wrth iddi ystyried yr argymhellion.

Ni ddaeth ein hymchwil cwsmeriaid ein hunain yn 2021 o hyd i unrhyw dystiolaeth o gynnydd mewn pryderon ynglŷn â fforddiadwyedd biliau, hyd yn oed yng nghysgod y pandemig. Mae cwsmeriaid o blaid buddsoddiad ychwanegol i fynd i'r afael â risgiau hirdymor megis newid yn yr hinsawdd, hyd yn oed os yw hynny'n golygu cynnydd bach mewn biliau.

**Crynodeb a rhagolygon ar gyfer PR24**
Mae Dŵr Cymru 2050 yn disgrifio'r heriau hirdymor sy'n wynebu'r busnes, ac mae'r adolygiad hwn yn cadarnhau'r angen am fuddsoddiad er mwyn sicrhau y byddwn yn cyflawni ein hymrwymiad i greu busnes cydnerth dros y tymor hir. Mae Ofwat wedi cydnabod y pwysau sylweddol o ran costau sy'n wynebu'r diwydiant yn PR24, a allai arwain at filiau uwch. Ond ni allwn gymryd yn ganiataol y gall cwsmeriaid fforddio talu eu biliau dŵr. Wrth i ni baratoi ein cynlluniau, byddwn yn trafod y cyfaddawdau anodd â'n cwsmeriaid, yn ogystal â'r llywodraeth a rhanddeiliaid eraill, gan roi sylw arbennig i gwsmeriaid llai cefnog.

Beth bynnag fo'r cyflymder buddsoddi hyd at 2050, byddwn yn parhau i ysgogi effeithlonrwydd o ran costau drwy waith ymchwil, arloesi a phartneriaethau effeithiol.

9

## YMATEB STRATEGOL 9: CEFNOGI CWSMERIAID MEWN AMGYLCHIADAU BREGUS

**Diben yr Ymateb Strategol:**

Mae angen i ni ddefnyddio data'n effeithiol, darparu gwasanaeth cwsmeriaid personol a gweithio mewn partneriaeth â darparwyr gwasanaethau eraill i roi cymorth priodol ac effeithiol i gwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus.

**Y dystiolaeth ddiweddaraf**
Fel y disgrifiwyd yn Dŵr Cymru 2050, nid dim ond amgylchiadau ariannol neu oedran cwsmeriaid sydd dan sylw pan gyfeirir at fregusrwydd. Mae'n fater cymhleth ac amlhaenog, a gall fod yn gyflwr dros dro neu barhaol. Pandemig COVID-19 yw'r newid mwyaf o bell ffordd yn lefel a mynychder bregusrwydd dros y pum mlynedd diwethaf. Ceir tystiolaeth o fregusrwydd cynyddol ar draws sawl dimensiwn, gan gynnwys diweithdra, dyled, tlodi, yn ogystal ag iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Nid yw'n glir eto i ba raddau y bydd y rhain yn dychwelyd i'r arfer wrth i ni ddod allan o'r pandemig.

Y tu hwnt i'r pandemig, y cymunedau mwyaf bregus, yn aml, yw'r rhai sydd wedi dioddef fwyaf yn sgil tywydd eithafol, megis llifogydd mis Chwefror 2020.

**Ein hymateb**
Mae ein cymorth i gwsmeriaid bregus yn cynnwys portffolio o fentrau, gan weithio gyda phartneriaid, nid yn unig ar fforddiadwyedd biliau, ond cymorth wedi'i dargedu yn ystod digwyddiadau gweithredol, a gweithgareddau cyfathrebu wedi'u targedu.

Ers 2018, rydym wedi tyfu ein rhwydwaith o bartneriaid i tua 300 o sefydliadau gwahanol er mwyn cynyddu ein cymorth i gwsmeriaid bregus. Gwnaethom ychwanegu cwsmeriaid a oedd yn cael eu gwarchod at Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth dros dro, yn ogystal â sefydlu timau cymorth arbenigol a chynyddu ein presenoldeb rhithwir mewn cymunedau.

Rydym hefyd yn cymryd rhan ym mhrosiect JIGSO, sef menter i sefydlu llwyfan rhannu gwybodaeth amlasiantaeth er mwyn gwella gwaith cynllunio ac ymateb i ddigwyddiadau mawr gan y gymuned ymatebwyr, gyda'r nod o ddiogelu pobl fregus y ceir effaith anghymesur arnynt yn ystod digwyddiadau o'r fath.

**Diweddariad ar ymchwil ac arloesi**
Un o'r heriau allweddol yw adnabod y cwsmeriaid y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran gweithio gyda darparwyr cyfleustodau a gwasanaethau eraill i rannu data. Yn 2022, byddwn yn dechrau rhannu data â'r Adran Gwaith a Phensiynau ac, ar hyn o bryd, rydym yn ymchwilio i drefniadau newydd ar gyfer rhannu data â Scottish Power, awdurdodau lleol a nifer o fyrddau iechyd, gan barhau i gydymffurfio â rheoliadau preifatrwydd a diogelu data ar yr un pryd.

**Crynodeb a rhagolygon ar gyfer PR24**
Mae costau rhoi mesurau ar waith i gefnogi cwsmeriaid dan amgylchiadau bregus yn gymharol fach, hyd yn oed dros y tymor hir. Felly, bydd y pwyslais ar sicrhau bod gan staff yr hyfforddiant a'r cymorth angenrheidiol, yn ogystal â'r diwylliant mewnol cywir, i roi cymorth priodol sydd wedi'i dargedu'n dda. Erbyn 2025, byddwn wedi cyrraedd y Safon Brydeinig ar gyfer Gwasanaethau Cynhwysol, gan sicrhau y gall timau ym mhob rhan o'n busnes adnabod cwsmeriaid dan amgylchiadau bregus ac ymateb iddynt. Mae hyn yn bwysig dros ben am ein bod yn rhagweld y bydd y galw am y math hwn o gymorth yn parhau i dyfu dros y degawdau nesaf.

10

## YMATEB STRATEGOL 10: YMDRIN Â'N CWSMERIAID SY'N CAEL Y GWASANAETH GWAETHAF

Gan fod disgwyliadau cwsmeriaid o ran cael gwasanaeth da bob amser yn cynyddu, byddwn yn mynd i'r afael â chwynion hirsefydlog y cwsmeriaid sy'n cael y gwasanaeth gwaethaf er mwyn sicrhau bod pawb yn cael lefel dderbyniol o wasanaeth. Ni fyddwn yn codi tâl ar gwsmeriaid pan na fydd y gwasanaeth yn cyrraedd ein safonau gwasanaeth.

**Y dystiolaeth ddiweddaraf**
Ein diffiniad o gwsmeriaid 'sy'n cael y gwasanaeth gwaethaf' yw'r rhai sy'n dioddef methiannau gwasanaeth mynych, megis toriadau mewn cyflenwad dŵr neu garthffosydd yn gorlifo. Bydd y bobl yn y categori hwn yn aml mewn cymunedau gwledig anghysbell lle y byddai datrys y broblem yn rhy gostus. Mae newid yn yr hinsawdd yn gwaethygu'r broblem, gan mai cwsmeriaid sy'n dioddef llifogydd mynych, yn aml ar ôl glaw trwm, yw cyfran sylweddol o'r rhain. Felly, mae cynnydd yn gysylltiedig â rhoi cynlluniau gwaredu dŵr wyneb ar waith – gweler Ymateb Strategol 15.

**Ein hymateb**
Ar hyn o bryd, rydym wedi ein cyfyngu o ran yr hyn y gallwn ei wneud i ddatrys y problemau a wynebir gan y cwsmeriaid 'sy'n cael y gwasanaeth gwaethaf', oherwydd pryderon ynghylch costau. Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn cael arweiniad ar ffyrdd o ddatrys y problemau anoddaf er boddhad ein cwsmeriaid. Yn y cyfamser, rydym yn rhoi cynllun 'WaterFair' ar waith er mwyn sicrhau na fydd cwsmeriaid sy'n perthyn i'r categori 'sy'n cael y gwasanaeth gwaethaf' ar gyfer dŵr neu ddŵr gwastraff yn talu am y gwasanaeth hwnnw.

**Diweddariad ar ymchwil ac arloesi**
Dros amser, rydym yn gobeithio y daw technoleg newydd i'r amlwg a fydd yn hwyluso atebion cyfalaf costeffeithiol i ddatrys problemau'r cwsmeriaid 'sy'n cael y gwasanaeth gwaethaf', megis gorsafoedd pwmpio mewn pecyn ar gyfer cwsmeriaid â phroblemau sy'n ymwneud â gwasgedd isel. Bydd y Cynlluniau Rheoli Systemau Draenio a Dŵr Gwastraff yn cynnwys gwybodaeth werthfawr er mwyn helpu i wneud penderfyniadau ynglŷn â lleihau peryglon llifogydd i'r rhai sy'n dioddef waethaf.

**Crynodeb a rhagolygon ar gyfer PR24**
Rydym yn parhau i leihau achosion o doriadau mewn cyflenwad dŵr ac achosion o lifogydd, a fydd yn lleihau nifer y cwsmeriaid 'sy'n cael y gwasanaeth gwaethaf'. Ar y llaw arall, mae newid yn yr hinsawdd yn gweithio'r ffordd groes, gan dueddu i gynyddu'r niferoedd. Mae datrys problemau penodol sy'n effeithio ar rai cymunedau bach iawn yn her, o ystyried cost uchel gwneud hynny, y pwysau ehangach ar y cynllun buddsoddi, a'r angen i gynnal fforddiadwyedd. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau lefel dderbyniol o wasanaeth i bob cwsmer, ond bydd yn rhaid asesu i ba raddau y gellir mynd i'r afael â'r materion unigol hyn yng nghyd-destun y buddsoddiadau ehangach y bydd angen i ni eu gwneud er budd ein holl gwsmeriaid.

11

## YMATEB STRATEGOL 11: CYFLOGWR DELFRYDOL

Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, prinder cynyddol o ran cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau technegol a galw cynyddol am ddulliau gweithio mwy hyblyg, bydd angen i ni barhau i fod yn gyflogwr delfrydol, gan ddenu, datblygu ac ysbrydoli pobl o amrywiaeth eang o gefndiroedd, er mwyn darparu gwasanaeth ardderchog i'n cwsmeriaid.

**Y dystiolaeth ddiweddaraf**
Mae'r tueddiadau hirdymor a nodwyd yn Dŵr Cymru 2050 yn ddilys o hyd, gan gynnwys pwysigrwydd cynnal a gwella safon gwasanaeth cwsmeriaid a ddarperir gan ein cyflogeion. Mae'r gystadleuaeth am weithwyr medrus wedi dwysáu wrth i'r economi ddod allan o bandemig COVID-19, ac mae recriwtio i rolau arbenigol wedi mynd yn her ddifrifol.

Hefyd, mae'r pandemig wedi achosi newid sydyn mewn patrymau ac arferion gweithio i'r holl staff swyddfa, ac wedi rhoi pwysau ychwanegol sylweddol ar dimau gweithredol. Mae'r newid mwy cyffredinol tuag at weithio gartref a gweithio o bell yn yr economi yn codi cwestiwn ynghylch y ffordd orau o ddenu'r bobl orau, ble bynnag y bônt. Mae hefyd wedi creu cyfleoedd i weithio'n wahanol ac yn fwy effeithlon.

**Ein hymateb**
Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at roi ffyrdd hyblyg o weithio ar waith mewn ymateb i COVID-19, a byddwn yn adeiladu ar hyn, drwy raglen Ffyrdd Clyfrach o Weithio, er mwyn creu'r amgylcheddau gwaith cydweithredol a hyblyg y bydd ein cydweithwyr yn eu disgwyl.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar y canolfannau rhagoriaeth mewn hyfforddiant technegol yn ein meysydd gweithredol, gan symud ymlaen at alluoedd lled-broffesiynol, megis mesur meintiau ac amcangyfrif.

Y tu hwnt i'r pandemig rydym yn bwrw ymlaen â phortfolio o brosiectau i sicrhau y byddwn yn parhau i fod yn Gyflogwr Delfrydol yng Nghymru. Ymhlith y rhain mae ein Strategaeth Gynwysoldeb, sydd â'r nod o sicrhau bod ein gweithlu yn adlewyrchu amrywiaeth ein sylfaen gwsmeriaid. Mae gennym gynlluniau iechyd, diogelwch a llesiant hefyd, yn ogystal â llwyfan gwasanaethau adnoddau dynol ar-lein newydd.

Ym mis Hydref 2021, cymeradwyodd ein Bwrdd strategaeth pum mlynedd newydd ar gyfer cael ein cydnabod fel y Cyflogwr Gorau yng Nghymru. Mae pedair elfen i hyn – gweithlu hynod fedrus, gweithlu brwdfrydig, systemau a phrosesau effeithiol, a chyflogwr apelgar.

**Diweddariad ar ymchwil ac arloesi**
Rydym yn casglu barn ein cydweithwyr bob blwyddyn drwy'r Arolwg Ymgysylltu â Chyflogeion, sy'n rhoi gwybodaeth werthfawr ac yn tynnu sylw at feysydd lle mae angen ymyrryd er mwyn atgyfnerthu diddordeb a chymhelliant ein gweithlu.

**Crynodeb a rhagolygon ar gyfer PR24**
Mae bod yn Gyflogwr Delfrydol yn hanfodol er mwyn goresgyn yr heriau hirdymor sydd o'n blaenau a chyflawni ein hamcanion ar gyfer 2050, a bydd y cynlluniau ategol yn elfen allweddol o'n cynlluniau ar gyfer PR24. Mae'n bwysig ein bod yn herio ein hunain yn barhaus i gyrraedd y safonau uchaf ac yn dod o hyd i ffyrdd newydd o sicrhau bod ein timau'n llawn cymhelliant a bod ganddynt ddigon o adnoddau i berfformio'n wych ar gyfer ein cwsmeriaid a'r amgylchedd.

12

## YMATEB STRATEGOL 12: GWASANAETH CWSMERIAID O'R RADD FLAENAF

Mae disgwyliadau newidiol gan gwsmeriaid, y chwyldro digidol a newid mewn demograffeg a ffordd o fyw yn annog Dŵr Cymru i ddatblygu ein diwylliant gwasanaeth cwsmeriaid ymhellach. Byddwn yn harneisio newid technolegol i ddarparu gwasanaeth personol i gwsmeriaid drwy eu dewis sianel cysylltu.

**Y dystiolaeth ddiweddaraf**
Mae'r Sefydliad Gwasanaeth Cwsmeriaid wedi archwilio'r sgiliau a'r galluoedd sy'n datblygu y bydd eu hangen ar sefydliadau i gynnig y profiad y mae cwsmeriaid yn ei ddisgwyl (Working with a Purpose, 2021). Mae'n tynnu sylw at y ffaith bod rhaid i ni barhau i 'symud gyda'r oes' er mwyn cynnal ein sefyllfa gref o ran boddhad cwsmeriaid.

Mae disgwyliadau cwsmeriaid o ran safon gwasanaeth sefydliadau yn parhau i godi. Ymhlith yr enghreifftiau o hyn mae argaeledd gwasanaethau archebu ar-lein 'ar yr un diwrnod' a normaleiddio'r gallu i 'dracio' eich parsel neu eich tacsi. Ceir tystiolaeth bod cwsmeriaid yn mynd yn llai parod i oddef unrhyw beth llai na gwasanaeth ardderchog. Yn sicr, disgwylir i wasanaethau digidol fod ar gael.

Er nad yw cwsmeriaid yn ein rhoi yn yr un categori â manwerthwyr ar-lein na darparwyr gwasanaethau preifat eraill, mae angen i ni gadw mewn cysylltiad â'r rhai sy'n arwain newid. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn rhoi cyfle i gwsmeriaid fynegi pryderon yn uniongyrchol, a gall cwynion ddenu sylw yn gyflym ar-lein. Mae'r ymgyrchoedd ar-lein mewn perthynas â llygredd afonydd a systemau gorlif carthffosydd cyfun yn enghreifftiau o hyn.

**Ein hymateb**
Yn y maes hwn sy'n datblygu'n gyflym, mae cynllunio fwy nag ychydig o flynyddoedd ymlaen llaw yn her. Yr hyn sy'n gyson yw ein ffocws ar groesawu dull gweithredu a arweinir gan gwsmeriaid, gwrando ar gwsmeriaid, defnyddio data i ddeall anghenion a blaenoriaethau, a darparu gwasanaeth personol. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cyflwyno gwasanaeth Fy Nghyfrif ar-lein a galwadau fideo er mwyn brysbennu problemau gweithredol cwsmeriaid, wedi bwrw ymlaen â'r gwaith o awtomeiddio trafodiadau allweddol â chwsmeriaid, ac wedi rhoi gwasanaeth tracio ar-lein ar waith ar gyfer ymweliadau gan beirianwyr, ymhlith mentrau eraill.

**Diweddariad ar ymchwil ac arloesi**
Rydym yn defnyddio technegau ymgysylltu â chwsmeriaid arloesol fel rhan o'n gwaith ymchwil parhaus i anghenion a blaenoriaethau cwsmeriaid, a byddwn yn parhau i achub ar gyfleoedd ym meysydd dadansoddeg data a deallusrwydd artiffisial i wella gwasanaeth cwsmeriaid. Mae'r defnydd o dechnoleg a TG wedi datblygu'n gyflym yn ystod y pandemig. Mae system 'brysbennu fideo' lle y gall cwsmeriaid ddangos problem i ni drwy alwad fideo heb fod angen anfon peiriannydd yn dal i gael ei threialu. Hefyd, rydym bellach yn cynnal archwiliadau effeithlonrwydd dŵr yn rhithwir er mwyn helpu cwsmeriaid i arbed dŵr ac arian.

**Crynodeb a rhagolygon ar gyfer PR24**
Rydym yn cydnabod bod y cwmnïau sy'n perfformio orau yn yr economi ar y blaen i ni o ran trawsnewid digidol. Ond rydym hefyd yn cydnabod nad oes modd digideiddio pob trafodiad a bod parhau i ryngweithio wyneb yn wyneb yn bwysig i lawer o'n cwsmeriaid. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn technoleg, mewn ffordd bwyllog a fforddiadwy, er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal lefelau uchel o foddhad cwsmeriaid, gan sicrhau bod dewisiadau ac anghenion amrywiol cwsmeriaid yn cael eu diwallu.

13

## YMATEB STRATEGOL 13: RHEOLI SYSTEMAU DŴR YN DDOETH

Gyda'r cyfle i fanteisio ar ddatblygiadau technolegol, byddwn yn gwella perfformiad y gwasanaeth a chydnerthedd ein hasedau drwy ddulliau synhwyro o bell, dadansoddi data ac awtomeiddio, a thrwy hynny'n datrys problemau cyn iddynt effeithio ar ein busnes neu'r amgylchedd.

**Y dystiolaeth ddiweddaraf**
Rydym wedi gweld cynnydd technolegol cyflym iawn dros y pum mlynedd diwethaf, sy'n peri her o ran buddsoddiad a fforddiadwyedd wrth i ni adnewyddu ein hasedau a'n rhwydweithiau technoleg weithredol yn gyflymach. Rhoddir y gorau i ddefnyddio'r rhwydwaith PSTN erbyn 2025, a 2G a 3G erbyn 2030, fwy na thebyg, ac mae'n anochel y bydd hynny'n arwain at gostau ychwanegol am uwchraddio ein hasedau.

Hefyd, mae'r dirwedd reoleiddiol mewn perthynas â thechnoleg weithredol wedi newid ers 2017, gan fod y DU wedi mabwysiadu rheoliadau Ewropeaidd newydd ar seilwaith cenedlaethol hollbwysig, a'r Gyfarwyddeb Diogelwch Rhwydweithiau a Gwybodaeth (NIS). Dim ond i seilwaith dŵr y mae hyn yn berthnasol ar hyn o bryd, ond gallai ymestyn i gynnwys asedau dŵr gwastraff yn y dyfodol.

Mae seiberddiogelwch yn fygythiad gwirioneddol a chynyddol hefyd. Nid ydym wedi gweld ymosodiad seiber mawr ar wasanaeth cyfleustodau yn y DU eto, ond ceir tystiolaeth o ymosodiadau a'r fath mewn rhannau eraill o'r byd. Wrth i wasanaethau a gweithrediadau ddod yn fwy digidol a 'chlyfar' er mwyn gwella perfformiad ac effeithlonrwydd, mae'n debygol y byddwn yn mynd yn fwy agored i ymosodiadau seiber.

**Ein hymateb**
Yn y tymor byr, rydym yn rhoi amrywiaeth o fesurau ar waith i fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan y newidiadau a'r arloesi cyflym a ddisgrifir uchod, gan reoli'r risgiau cysylltiedig ar yr un pryd. Ymhlith yr enghreifftiau mae systemau canfod digwyddiadau ac anomaleddau mewn rhwydweithiau (NEADS) sy'n gallu helpu i ragweld achosion o bibellau dŵr yn torri, a'r system rheoli gweithredol ar rwydweithiau (NOCS), sy'n cynnwys gwaith cynllunio prosesau cynhyrchu.

Yn y tymor hwy, gallwn ddisgwyl i fesuryddion deallus ddod yn ffordd fuddiol ac effeithiol o ran costau o wella prosesau rheoli rhwydweithiau, gan gynnig toreth o wybodaeth am ddefnydd a gweithrediad rhwydweithiau. Er nad yw'r dechnoleg na'r seilwaith wedi datblygu'n ddigonol eto, byddwn yn cynllunio ar gyfer y gwariant ac yn cynnal treialon i baratoi ar gyfer y dyfodol.

Mae'r dirwedd o ran y bygythiad i seiberddiogelwch yn datblygu'n barhaus. Rydym yn dal yn effro i'r lefel bygythiad uwch, ac rydym yn parhau i ddatblygu ein sgiliau seiber a'n technolegau amddiffyn yn unol â hynny.

**Diweddariad ar ymchwil ac arloesi**
Mae rhai o'r datblygiadau arloesol rydym yn eu rhoi ar waith wedi'u disgrifio uchod, ac mae cryn dipyn o waith ymchwil yn cael ei wneud ar ddefnyddio technoleg i sicrhau bod ein rhwydweithiau'n gweithio'n well, a hynny gan ein partneriaid ac ar y cyd â nhw yn bennaf. Er enghraifft, rydym yn aelod o rwydwaith Rhwydweithiau Dŵr Clyfar (SWAN), sef corff byd-eang sy'n archwilio technolegau clyfar ar gyfer y diwydiant dŵr.

**Crynodeb a rhagolygon ar gyfer PR24**
Mae symud gyda'r oes ac achub ar y cyfleoedd a gynigir gan newidiadau technolegol, a'r gofynion buddsoddi sy'n deillio o newid rheoliadol, yn her barhaus i'r busnes. Mae angen cryn dipyn o fuddsoddiad, yn enwedig wrth i ni roi'r gorau i ddefnyddio seilwaith technoleg weithredol hŷn, sy'n golygu bod angen adnewyddu ac uwchraddio ein hasedau. Hefyd, bydd y bygythiad o ymosodiadau seiber yn newid yn barhaus wrth i'r ymosodwyr chwilio am wendidau newydd y gallant fanteisio arnynt, a bydd angen i ni fuddsoddi mewn mesurau amddiffyn newydd. Byddwn yn asesu'r cynnydd y bydd angen i ni ei wneud mewn perthynas ag edrych yn ofalus ar y materion hyn wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau busnes ar gyfer PR24.

14

## YMATEB STRATEGOL 14: CEFNOGI ECOSYSTEMAU A BIOAMRYWIAETH

Mae bioamrywiaeth dan fygythiad, gan gynnwys colli, darnio a gorddefnyddio cynefinoedd. Yn y tymor hwy, bydd y tymheredd a phatrymau glawio newidiol yn effeithio ar fioamrywiaeth hefyd. Byddwn yn chwilio am ffyrdd o helpu byd natur, gan wella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, wrth i ni gyflawni ein gweithgareddau dŵr a charthffosiaeth.

**Y dystiolaeth ddiweddaraf**
Mae cydnabyddiaeth a thystiolaeth o'r argyfwng natur wedi cynyddu ers cyhoeddi Dŵr Cymru 2050 yn 2017. Cafodd 'Argyfwng Natur' ei ddatgan gan y Senedd ym mis Gorffennaf 2021 ar sail ystadegau ynghylch dirywiad rhywogaethau yng Nghymru. Yn ôl yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) yn 2021, dim ond 44% o afonydd yng Nghymru sydd â statws ecolegol 'da' (tinyurl. com/yj7dryha) ac nid yw'r rhan fwyaf o dir â dynodiad amgylcheddol mewn cyflwr ffafriol.

Mae hyn yn cael ei lywio gan sawl tuedd hirdymor, ac yn cael ei gymhlethu gan newid yn yr hinsawdd sy'n effeithio ar ddosbarthiad a helaethrwydd rhywogaethau, y defnydd o gynefinoedd ac amseriad digwyddiadau naturiol tymhorol.

Rhoddir pwyslais cynyddol ar gyfrifoldeb amgylcheddol Dŵr Cymru mewn disgwrs gyhoeddus, fel sefydliad amgylcheddol ac fel tirfeddiannwr sylweddol. Mae'n debygol y daw gofynion rheoliadol yn fwy llym, yn enwedig o ran lliniaru newid yn yr hinsawdd ac ansawdd dŵr.

**Ein hymateb**
Rydym yn parhau i leihau ein hôl troed amgylcheddol, boed hynny mewn perthynas â maetholion mewn afonydd, allyriadau carbon, neu effaith ein rhaglenni cyfalaf ar fioamrywiaeth. Lle bynnag y bo modd, rydym yn ceisio dilyn dull cydgysylltiedig gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid er mwyn dod o hyd i atebion lle rydym yn defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael gyda'n gilydd yn y ffordd fwyaf effeithiol er budd yr amgylchedd a bioamrywiaeth. Y cyfyngiadau allweddol yw cyllid a diffyg data a pholisi clir i ategu'r ymyriadau naturiol mwyaf effeithiol.

**Diweddariad ar ymchwil ac arloesi**
Un her allweddol yw'r ffaith nad oes digon o ddata cadarn ar gael ar hyn o bryd ynghylch cyflwr bioamrywiaeth ar ein daliadau tir, yn enwedig mewn perthynas â safleoedd a rhywogaethau penodol, sef rhywbeth rydym yn ceisio mynd i'r afael ag ef. Rydym yn gweithio gyda CNC i egluro'r gofynion i dirfeddianwyr mewn perthynas â safleoedd wedi'u dynodi o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd er mwyn sicrhau y byddant mewn cyflwr ffafriol o 2025 ymlaen.

Fodd bynnag, mae'r sylfaen dystiolaeth sydd gennym yn gwella. Er enghraifft, ceir mwy o eglurder ynghylch effaith Rhywogaethau Estron Goresgynnol ar amrywiaeth. Rydym yn cadw golwg ar ein canlyniadau bioamrywiaeth drwy ein hadroddiadau 'Neilltuo Amser ar gyfer Natur', a chaiff yr adroddiad nesaf ei gyhoeddi yn 2022 er mwyn cefnogi ein gwaith cynllunio ar gyfer PR24.

**Crynodeb a rhagolygon ar gyfer PR24**
Yn ystod cyfnod Cynllun Rheoli Asedau 8, yn amodol ar gyllid, byddwn yn parhau i wneud y gorau o'n hadnoddau bioamrywiaeth ynghyd â rhai CNC a Llywodraeth Cymru fel 'Tîm Cymru'. Hyd yma, rydym wedi denu dros £15m o gyllid gan drydydd partïon er mwyn gwella cynefinoedd afonydd ac ansawdd dŵr sawl afon mewn ardaloedd cadwraeth arbennig (SACau). Rydym hefyd yn gobeithio denu cyllid ac adnoddau o ffynonellau eraill, gan gynnwys diwygiadau newydd Llywodraeth Cymru ar ddefnydd tir a thaliadau am nwyddau cyhoeddus fel bioamrywiaeth. Byddwn yn gweithio gyda CNC i sicrhau y caiff mesurau priodol a phenodol eu cynnwys yn y gofynion a nodir yn y Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol, sy'n gyson â'r ffordd y byddwn yn cyflawni ein swyddogaethau.

15

## YMATEB STRATEGOL 15: DEFNYDDIO NATUR I LEIHAU PERYGL LLIFOGYDD A LLYGREDD

Wrth i ni wynebu trefoli graddol yn sgil newidiadau demograffig, a glaw trymach yn sgil newid yn yr hinsawdd, mae Dŵr Cymru yn cynnig lleihau'r risg o lygredd a charthffosydd yn gorlifo drwy ddatblygu systemau draenio trefol cynaliadwy a'u rhoi ar waith. Ein nod fydd gosod systemau draenio cynaliadwy mewn dinasoedd a chytrefi mawr (Abertawe, Caerdydd, Casnewydd, Wrecsam, Caer) sy'n wynebu'r risg uchaf, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol.

**Y dystiolaeth ddiweddaraf**
Fel yr esboniwyd mewn mannau eraill, rydym eisoes yn gweld effeithiau newid yn yr hinsawdd, ac mae hyn yn cael effaith sylweddol ar faint ac amlder achosion o garthffosydd yn gorlifo. Mae trefoli graddol, diffyg rheolaeth dros y dŵr glaw sy'n mynd i mewn i garthffosydd, a'r cynnydd mewn ardaloedd anhydraidd yn golygu bod mwy o ddŵr glaw yn cael ei gasglu yn ein systemau carthffosiaeth cyfun.

Ers 2017, mae'r cyd-destun rheoleiddiol a gwleidyddol wedi datblygu'n gyflym yn y maes hwn. Mae cyflwyno Cynlluniau Rheoli Systemau Draenio a Dŵr Gwastraff gorfodol fel sail i waith cynllunio hirdymor yn ddatblygiad i'w groesawu. Mae safonau newydd yn cael eu datblygu yng Nghymru, sy'n adlewyrchu Deddf yr Amgylchedd (2021) yn Lloegr (yn rhannol), ac mae systemau draenio cynaliadwy bellach yn orfodol ar gyfer datblygiadau tai newydd yng Nghymru.

Yn fwyaf arwyddocaol, efallai, mae'r defnydd o systemau gorlif carthffosydd cyfun wedi dod yn bryder cyhoeddus a gwleidyddol o bwys.

**Ein hymateb**
Byddwn yn ymgynghori ar y cylch cyntaf o Gynlluniau Rheoli Systemau Draenio a Dŵr Gwastraff ym mis Mehefin 2022. Bydd hyn yn fodd i gynnal deialog â chwsmeriaid a rhanddeiliaid ynghylch cyflymder a blaenoriaethau buddsoddi yn y maes hwn. Mae'n debygol y bydd systemau draenio trefol cynaliadwy yn parhau i fod yn rhan o'n cynlluniau hirdymor, ond nid oes cynlluniau mawr yng nghyfnod y Cynllun Rheoli Asedau presennol am resymau sy'n ymwneud â fforddiadwyedd.

Gwnaethom arwain y sector o ran gosod monitorau ar systemau gorlif carthffosydd cyfun, ac rydym yn dal yn ymrwymedig i fod yn dryloyw ynghylch data. Yn y cyfamser, rydym yn gwneud buddsoddiadau ychwanegol sylweddol er mwyn datrys problemau yn ymwneud â systemau gorlif carthffosydd cyfun.

**Diweddariad ar ymchwil ac arloesi**
Un ffocws allweddol yw ein gwaith gyda phartneriaid i ddatblygu methodoleg ar gyfer prisio manteision naturiol, cymdeithasol a dynol ehangach cynlluniau draenio cynaliadwy. Bydd hyn yn helpu i bwyso a mesur yr holl fanteision perthnasol yn briodol at ddibenion cynllunio at y dyfodol, gan gynnwys y manteision i fioamrywiaeth a llesiant, yn erbyn y costau ariannol.

Rydym hefyd yn manteisio ar waith ymchwil diweddaraf ein partneriaid a sefydliadau eraill, megis gwaith Rhaglen Effeithiau Hinsawdd y DU ar addasu i newid yn yr hinsawdd, wrth i ni ddatblygu Cynlluniau Rheoli Systemau Draenio Dŵr Gwastraff gyda'n partneriaid.

**Crynodeb a rhagolygon ar gyfer PR24**
Yn y tymor byr, mae'r ffocws ar effaith gollyngiadau systemau gorlif carthffosydd cyfun, ond dim ond un ffactor sy'n effeithio ar ansawdd dŵr yn ein hafonydd yw hyn. Rydym yn cefnogi'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru a CNC i ddatblygu cynllun cynhwysfawr i fynd i'r afael â'r holl elfennau sydd ynghlwm wrth y mater amgylcheddol allweddol hwn, a byddwn yn cyfrannu'n briodol at y dull gweithredu y cytunir arno. Bydd canlyniad Cynllun Rheoli Asedau 8 yn dibynnu'n helaeth ar y blaenoriaethau a adlewyrchir yn y Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol nesaf. Tra byddwn yn gwella ein gallu i brisio manteision ehangach cynlluniau naturiol fel systemau draenio cynaliadwy, bydd hefyd angen i ni gael cefnogaeth rheoleiddwyr er mwyn hwyluso eu defnydd ehangach. Mae'n debygol mai rhoi systemau draenio cynaliadwy ar waith mewn ardaloedd trefol, ochr yn ochr â diwygio cyfrifoldebau am systemau draenio a rheoli mynediad plastigion a dŵr glaw i mewn i garthffosydd, fydd y ffordd gywir o weithredu dros y tymor hir, ond bydd hyn yn amodol ar gyfyngiadau o ran fforddiadwyedd.

16

## YMATEB STRATEGOL 16: AFONYDD A THRAETHAU GLANACH

Wrth i dwf y boblogaeth, newid defnydd tir, newid yn yr hinsawdd a ffynonellau newydd o lygredd roi mwy o bwysau ar yr amgylchedd naturiol, byddwn yn gwella ein hasedau dŵr gwastraff er mwyn gwneud ein rhan i helpu i gyflawni statws ecolegol 'da' ar gyfer ein hafonydd, ein llynnoedd a'n dyfroedd arfordirol.

**Y dystiolaeth ddiweddaraf**

Fel mewn meysydd eraill, mae newid yn yr hinsawdd yn peri her fawr i'n hymdrechion i fynd i'r afael â llygredd afonydd a llygredd arfordirol. Ymddengys y bydd trefoli a thwf ardaloedd palmantog yn parhau. Mae glaw trwm eisoes yn digwydd yn amlach ac yn fwy eithafol, gan gynyddu'r risg o ollyngiadau amlach o systemau gorlif carthffosydd cyfun er mwyn atal carthffosydd rhag gorlifo. Rydym yn gweithio'n agos gyda CNC i sicrhau y caiff buddsoddiad ei flaenoriaethu ar sail lleihau effaith llygredd ar yr amgylchedd lle y bo'n digwydd, gan sicrhau ein bod yn cydymffurfio â thrwyddedau cyfreithiol ar yr un pryd. Disgwylir i 'Fap Trywydd' Dŵr Cymru ar gyfer systemau gorlif carthffosydd cyfun gael ei gyhoeddi cyn bo hir.

Mae problem gynyddol llygredd amaethyddol a diwydiannol hefyd yn effeithio ar gyflwr afonydd, yn enwedig mewn perthynas â maetholion. Gallai rheoliadau newydd ar ansawdd dŵr fynd i'r afael â'r broblem, ond bydd angen trefniadau monitro a gorfodi digonol. Rydym yn disgwyl targedau mwy heriol ar gyfer rhai afonydd y tu hwnt i reoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Hefyd, mae nifer o halogyddion newydd wedi cael eu rhoi ar 'restrau gwylio', sy'n cymhlethu'r heriau ac a allai olygu y bydd angen buddsoddiad ychwanegol sylweddol mewn gweithfeydd trin dŵr, os na chânt eu rheoli yn y tarddle.

**Ein hymateb**

Mae ein cynlluniau hirdymor yn cael eu datblygu drwy Gynlluniau Rheoli Systemau Draenio a Dŵr Gwastraff ffurfiol, a gaiff eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ar eu ffurf gyntaf ym mis Mehefin 2022. O ran sicrhau statws ecolegol 'da', rydym yn disgwyl gwella 200km i statws 'da' erbyn 2025, os mai ein hasedau yw'r prif reswm dros ansawdd dŵr gwael. Ond bydd y gallu i gyrraedd ein targed o wella 1500km o afonydd i safon y dynodiad hwnnw yn dibynnu'n helaeth ar ddatblygu dull gweithredu wedi'i gydgysylltu'n dda sydd â digon o adnoddau a gaiff ei ddilyn gan randdeiliaid a rheoleiddwyr a'i gefnogi gan y ddeddf amaethyddiaeth sydd ar y gweill.

Mae gan 80% o ddyfroedd ymdrochi arfordirol Cymru statws 'ardderchog', ond mae angen i ni uwchraddio ein hasedau mewn ambell ardal er mwyn cynnal a gwella'r sefyllfa. Mae'n debygol mai gwella ansawdd dŵr er mwyn gallu allforio cynhyrchion pysgod cregyn i'r Undeb Ewropeaidd fydd prif ffocws y gwelliannau hyn.

**Diweddariad ar ymchwil ac arloesi**

Rydym wedi canolbwyntio'n bennaf ar osod monitorau (Monitorau Hyd Digwyddiadau) er mwyn casglu data ynghylch pryd a sut y mae ein systemau gorlif carthffosydd cyfun yn gweithredu. Rydym hefyd yn gosod monitorau er mwyn deall yn well y llifau brig sy'n cael eu trin gan ein gweithfeydd trin dŵr gwastraff. Hefyd, mae angen i ni fonitro ansawdd dŵr yn well i fyny'r afon ac i lawr yr afon o'n hasedau dŵr gwastraff er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'u heffaith.

O ran arloesi, rydym yn cyflwyno'r achos o blaid diwygio rheoliadol er mwyn mabwysiadu dulliau trwyddedu mwy newydd ac effeithiol mewn perthynas â gollyngiadau i afonydd, megis trwyddedau llwyth dalgylch neu drwyddedau tymhorol.

**Crynodeb a rhagolygon ar gyfer PR24**

Yn ystod 2020-25, byddwn yn buddsoddi £250 miliwn yn unol â'n Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol ond, o ganlyniad i lygredd amaethyddol cynyddol ac effaith newid yn yr hinsawdd ar systemau gorlif carthffosydd cyfun, mae ein hamcan ar gyfer 2050 yn edrych yn fwyfwy heriol. Bydd angen buddsoddiad sylweddol mewn monitro amgylcheddol a ffyrdd newydd o reoleiddio a chydweithio er mwyn sicrhau ein bod yn ôl ar y trywydd cywir. Y flaenoriaeth ar gyfer PR24 yw parhau â'r camau rydym yn eu cymryd i fynd i'r afael â phryderon ynghylch gweithrediad systemau gorlif carthffosydd cyfun a'u heffaith, fel rhan o fater ehangach ansawdd dŵr afonydd.

17

YMATEB STRATEGOL 17:
DIOGELU EIN HASEDAU DŴR GWASTRAFF HOLLBWYSIG

Wrth i ni wynebu mwy o risg o darfu, er enghraifft oherwydd mwy o dywydd garw yn sgil newid yn yr hinsawdd, a'r ffaith bod cwsmeriaid yn llai parod i dderbyn achosion o lygredd, byddwn yn gwella cydnerthedd ein hasedau dŵr gwastraff hollbwysig, sy'n cael cryn effaith ar yr amgylchedd a chwsmeriaid lle bydd methiant.

**Y dystiolaeth ddiweddaraf**
Rydym yn gweld cynnydd yn nifer y stormydd glaw trwm byrhoedlog yn yr haf yn ogystal â stormydd gaeaf eithafol. Nid yn unig y mae'r rhain yn effeithio ar ein hasedau dŵr gwastraff yn uniongyrchol, ond maent hefyd yn effeithio ar seilwaith arall rydym yn dibynnu arno, megis pŵer a ffyrdd.

Ymhlith y bygythiadau eraill i asedau hollbwysig mae ymosodiadau seiber, terfysgaeth a chyflwr ffisegol. Mae ymosodiadau seiber yn datblygu'n gyflym ac maent eisoes wedi effeithio ar gyfleustodau dŵr dramor. Hefyd, mae'r risg o darfu ar adnoddau yn uwch yn dilyn Brexit.

**Ein hymateb**
Rydym yn dilyn dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg, gan ddelio â'r asedau mwyaf hollbwysig lle y bydd methiant yn arwain at ganlyniadau mwy difrifol. Mae ein rhestr o asedau hollbwysig yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd, gan gynnwys gweithfeydd trin dŵr yn ogystal â gorsafoedd pwmpio a phrif bibellau hollbwysig mewn ardaloedd sensitif. Rydym yn rhoi nifer o gynlluniau ar waith yn ystod y cyfnod presennol er mwyn gwella cydnerthedd rhag toriadau pŵer ac rydym yn diweddaru ein cynlluniau parhad busnes. Yn achos y nifer mawr o'n gweithfeydd trin dŵr sydd mewn dyffrynnoedd afonydd, mae'n bosibl mai'r strategaeth orau a mwyaf costeffeithlon fydd eu paratoi i allu adfer yn gyflym ar ôl llifogydd, yn hytrach na cheisio eu hamddiffyn i gyd rhag llifogydd.

**Diweddariad ar ymchwil ac arloesi**
Mae a wnelo'r rhan fwyaf o'n gwaith ymchwil yn y maes hwn â gwella ein dealltwriaeth o'r risg i'n hasedau. Er enghraifft, mae adolygiad mawr o'r risg i weithfeydd trin dŵr gwastraff o ganlyniad i erydu arfordirol wrthi'n mynd rhagddo. Yn yr un modd â'r ochr o'r busnes sy'n ymwneud â dŵr glân, rydym yn ystyried argymhellion Asesiad Seilwaith Cenedlaethol y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol (Tachwedd 2021) a byddwn yn ymgysylltu â Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ar y cyd-ddibyniaethau â seilwaith allweddol arall megis pŵer a thrafnidiaeth er mwyn deall y goblygiadau i systemau.

**Crynodeb a rhagolygon ar gyfer PR24**
Bydd y risg o lifogydd afonydd a llifogydd arfordirol yn cynyddu yn sgil newid yn yr hinsawdd a'r cynnydd yn amlder stormydd garw. Rydym yn adolygu risgiau llifogydd ac yn datblygu cynllun hirdymor i ddiogelu asedau hollbwysig ar sail blaenoriaeth, a chaiff canlyniadau cychwynnol y gwaith hwnnw eu hadlewyrchu yn ein cynlluniau ar gyfer PR24. Yn fwy cyffredinol, byddwn yn cyflwyno rhaglen barhaus o waith uwchraddio diogelwch a mesurau eraill i sicrhau y gellir adfer gwasanaethau yn gyflym ar ôl digwyddiadau.

18

YMATEB STRATEGOL 18: SICRHAU ALLYRIADAU CARBON SERO NET ERBYN 2040 A HYRWYDDO ECONOMI GYLCHOL*

Wrth i'r hinsawdd newid, ac wrth i gostau ynni gynyddu, byddwn yn anelu at leihau cyfanswm ein hallyriadau carbon 90% erbyn 2030 a niwtraleiddio carbon erbyn 2040. Byddwn hefyd yn achub ar gyfleoedd i ailddefnyddio dŵr wedi ei drin a deunyddiau naturiol eraill a allai fod yn werthfawr, gan gyfrannu at yr economi gylchol yn ein rhanbarth lleol.

* Rydym wedi diwygio testun yr Ymateb Strategol hwn i adlewyrchu'r ffocws cryfach ar sero net, fel yr esbonnir isod.

**Y dystiolaeth ddiweddaraf**
Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o newid yn yr hinsawdd, a'u pryder yn ei gylch, wedi cynyddu'n gyflym dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r angen i niwtraleiddio carbon hefyd wedi codi yr un mor gyflym i fyny'r agenda wleidyddol, ac mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed sero net erbyn 2050, gyda thargedau interim ar gyfer 2030 a 2040.

O ran yr economi gylchol, mae rheoliadau newydd yn cael eu hystyried a allai effeithio ar y broses o ailgylchu bioadnoddau i'r tir (slwtsh carthffosiaeth wedi'i drin), a allai arwain at oblygiadau difrifol i'n gweithrediadau, yn enwedig o ran allyriadau carbon os cawn ein gorfodi i droi at losgi fel ateb amgen.

**Ein hymateb**
Yn 2021, gwnaethom nodi ein cynlluniau ar gyfer ein taith garbon, gan dargedu sero net erbyn 2040 ar gyfer carbon gweithredol ac ymgorfforedig, a lleihau cyfanswm ein hallyriadau 90% erbyn 2030. Mae ein defnydd o ynni eisoes yn garbon niwtral, ac eithrio ein fflyd cludiant. Byddwn yn dod o hyd i ffyrdd o wrthbwyso carbon gan ddefnyddio ein daliadau tir. Disgwylir i'n lefel o 'hunangynhaliaeth' ynni gyrraedd 35% erbyn 2025. Rydym yn ystyried cynlluniau ar gyfer mynd i'r afael ag allyriadau carbon o'n cerbydau wrth i dechnoleg batris a'r seilwaith i gefnogi cerbydau trydan wella.

Rydym yn ymgysylltu â'r llywodraeth a rheoleiddwyr ar reoliadau newydd sy'n effeithio ar ailgylchu bioadnoddau, gan bwysleisio manteision ailgylchu i'r tir a'r angen i ystyried effaith atebion amgen, megis llosgi, ar yr amgylchedd. Rydym hefyd yn ymwneud yn helaeth â gwaith ymchwil a datblygu technoleg.

**Diweddariad ar ymchwil ac arloesi**
Un ffocws allweddol gwaith ymchwil yn y maes hwn yw allyriadau carbon o'n rhaglen buddsoddi cyfalaf ac o weithrediadau dŵr gwastraff. Gwnaethom ddechrau mesur y 'carbon ymgorfforedig' yn ein rhaglen gyfalaf yn 2020, ac mae'r gyfran a gaiff ei hasesu yn tyfu'n gyflym. Mewn perthynas â gweithrediadau dŵr gwastraff, mae bellach yn ymddangos ein bod ni, fel diwydiant, wedi tanamcangyfrif yr 'allyriadau sy'n ffoi' o weithfeydd trin dŵr gwastraff yn sylweddol yn y gorffennol. Rydym wedi gosod dyfeisiau mewn rhai gweithfeydd trin dŵr fel rhan o dreial i wella ein dealltwriaeth o faint y broblem hon a, thrwy hynny, ddatblygu atebion gyda'n partneriaid.

O ran yr economi gylchol, rydym yn rhagweld y bydd technegau gwell ar gyfer adfer maetholion a chynhyrchion eraill o fioadnoddau yn dod i'r amlwg dros y tair i bum mlynedd nesaf. Efallai y gallwn ddod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio'r CO2 biogenig a gaiff ei allyrru yn ein prosesau, naill ai fel cynnyrch ynddo'i hun neu ei ddefnyddio mewn prosesau 'bioburfa' er mwyn gwneud cynhyrchion eraill. Rydym hefyd yn ystyried y potensial i gynhyrchu biohydrogen o brosesau anaerobig, ond mae'r rhagolygon yn fwy hirdymor yn hyn o beth.

**Crynodeb a rhagolygon ar gyfer PR24**
Mae'n debygol mai niwtraleiddio carbon fydd un o brif themâu PR24. Mae gennym bellach gynllun datblygedig ar gyfer lleihau carbon, a byddwn yn asesu faint y gellir ei gyflawni drwy wariant 'busnes fel arfer', a ble y bydd angen buddsoddiad ychwanegol. Byddwn yn parhau i archwilio potensial yr economi gylchol ehangach a'r cyfleoedd a gynigir drwy arloesi er mwyn rhoi atebion buddsoddi cyfalaf mwy effeithlon o ran carbon ar waith.

# CRYNODEB: ADOLYGIAD O'R YMATEBION STRATEGOL

## CASGLIADAU – ADOLYGIAD O'R YMATEBION STRATEGOL

Er gwaethaf y dystiolaeth bod heriau'r dyfodol yn datblygu ac yn dwysáu, credwn mai ein 18 Ymateb Strategol yw'r ffordd orau o sicrhau y gallwn barhau i ddarparu gwasanaeth cydnerth a chynaliadwy dros y tymor hir o hyd. Fodd bynnag, ceir newid pwyslais yn rhai o'r Ymatebion Strategol o gymharu â phum mlynedd yn ôl. Er enghraifft, mae Ymateb Strategol 18 yn ymwneud â'r economi gylchol a lleihau allyriadau carbon, ond mae'r ail o'r rhain wedi dod yn fwy amlwg ac yn fwy o achos brys dros y pum mlynedd diwethaf. Mewn ymateb i hyn, cyhoeddwyd ein cynllun 'Taith tuag at Sero Net' yn 2021, ac rydym wedi pennu targedau uchelgeisiol ar gyfer 2030 a 2040. Er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod mwy o flaenoriaeth yn cael ei rhoi ar sero net, rydym wedi diwygio Ymateb Strategol 18 fel a ganlyn: "Sicrhau allyriadau carbon sero net erbyn 2040 a hyrwyddo economi gylchol".

| | | YMATEBION STRATEGOL | STATWS A SYLWADAU | |
|---|---|---|---|---|
| DŴR YFED | 1 | Diogelu dŵr yfed glân drwy reoli dalgylchoedd | Ar y trywydd cywir. Mae angen dull o fynd i'r afael â halogyddion newydd ac ati o hyd. | ✓ |
| | 2 | Digon o ddŵr i bawb | Ar y trywydd cywir. Y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a gwaith cynnal a chadw argaeau fydd y buddsoddiadau allweddol yn y dyfodol. | ✓ |
| | 3 | Gwella dibynadwyedd systemau cyflenwi dŵr yfed | Ar y trywydd cywir. Angen cynyddol am fesurau i wella cydnerthedd. | ✓ |
| | 4 | Diogelu ein hasedau cyflenwi dŵr hollbwysig | Ar y trywydd cywir. Risgiau cynyddol. Rhaglen hirdymor wrthi'n cael ei datblygu. | ✓ |
| | 5 | Sicrhau ansawdd dŵr derbyniol i bob cwsmer | Mewn perygl. Angen cyflymu'r gwaith o osod prif bibellau dŵr ac arloesi. | ⚠ |
| | 6 | Tuag at Gymru Ddi-blwm | Mewn perygl. Angen cyflymu'r gwaith o osod pibellau newydd a rhoi dulliau gweithredu newydd ar waith. | ⚠ |
| CWSMERIAID A CHYMUNEDAU | 7 | Gweithio gyda chwsmeriaid a chymunedau | Ar y trywydd cywir. Mwy o bwysigrwydd oherwydd effaith y pandemig. | ✓ |
| | 8 | Sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid yn fforddiadwy | Mewn perygl. Argyfwng costau byw. Posibilrwydd y bydd biliau'n cynyddu yn y dyfodol. | ⚠ |
| | 9 | Cefnogi cwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus | Ar y trywydd cywir. Mwy o bwysigrwydd oherwydd effaith y pandemig. | ✓ |
| | 10 | Ymdrin â'n cwsmeriaid sy'n cael y gwasanaeth gwaethaf | Mewn perygl. Newid yn yr hinsawdd. Ymyriadau'n anghymesur o ddrud. | ⚠ |
| | 11 | Cyflogwr delfrydol | Ar y trywydd cywir. Marchnad lafur heriol. Newidiadau mewn arferion gwaith. | ✓ |
| | 12 | Gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf | Ar y trywydd cywir. Darlun sy'n newid yn gyflym, disgwyliadau cwsmeriaid yn cynyddu. | ✓ |
| | 13 | Rheoli systemau dŵr yn ddoeth | Ar y trywydd cywir. Cyfleoedd ond heriau hefyd yn sgil newidiadau cyflym i dechnoleg weithredol. | ✓ |
| YR AMGYLCHEDD | 14 | Cefnogi ecosystemau a bioamrywiaeth | Ar y trywydd cywir. Cyfleoedd i wneud mwy gyda chyllid ochr yn ochr â'n partneriaid. | ✓ |
| | 15 | Defnyddio natur i leihau perygl llifogydd a llygredd | Mewn perygl. Ansawdd dŵr yn bryder allweddol y bydd angen atebion cynaliadwy i'w ddatrys. | ⚠ |
| | 16 | Afonydd a thraethau glanach | Mewn perygl. Angen cydweithio. Angen mwy o fuddsoddiad. | ⚠ |
| | 17 | Diogelu ein hasedau dŵr gwastraff hollbwysig | Ar y trywydd cywir. Risgiau cynyddol. Rhaglen hirdymor wrthi'n cael ei datblygu. | ✓ |
| | 18 | Sicrhau allyriadau carbon sero net erbyn 2040 a hyrwyddo economi gylchol (DIWYGIEDIG) | Ar y trywydd cywir. Cynllun sero net uchelgeisiol – bydd angen buddsoddiad. | ✓ |

Fel y gwelir yn y crynodeb uchod, mae ein cynnydd yn y 18 Ymateb Strategol yn anwastad. Mae hyn yn ddisgwyliedig o ystyried eu bod yn amrywio'n sylweddol, gan fod rhai yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol i wella perfformiad, ac eraill yn gofyn am ffocws 'busnes fel arfer' parhaus ar gynnal safonau cymharol uchel. Ond, ar gyfer is-set o'r Ymatebion, rydym o'r farn nad ydym yn gwneud cynnydd yn ddigon cyflym ar hyn o bryd i gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer 2050, ac ystyrir bod y meysydd hyn 'mewn perygl'. Byddwn yn cynnwys y meysydd hyn yn ein trafodaethau â'n rhanddeiliaid ynghylch y blaenoriaethau ar gyfer PR24, ac yn ein gwaith cynllunio buddsoddiad hirdymor hyd at 2050.

**Y chwe phrif faes heriol yw:**

## YMATEB STRATEGOL 5: SICRHAU ANSAWDD DŴR DERBYNIOL I BOB CWSMER

Mae 'derbynioldeb' dŵr yn cyfeirio at achosion o afliwio neu annormaleddau arogl neu flas, wedi'u mesur yn ôl sawl gwaith y bydd cwsmeriaid yn cysylltu â ni mewn perthynas ag achosion o'r fath. Mae ein perfformiad yn y maes hwn ar ei hôl hi o gymharu â'r rhan fwyaf o'r diwydiant, a'r brif her yw afliwio o ganlyniad i ddyddodion sy'n cronni mewn hen brif bibellau haearn bwrw, a all gael eu rhyddhau i ddŵr yfed wedyn.

Mae hwn yn faes cymhleth ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r Arolygiaeth Dŵr Yfed i fynd i'r afael ag ef. Mae'r Arolygiaeth yn gefnogol o'r dull gweithredu wedi'i dargedu rydym yn ei ddilyn, ac rydym yn cyflawni gwelliannau. Gallwn wneud rhai pethau 'i fyny'r afon' i liniaru'r broblem, ac rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu yn y maes hwnnw ond, yn y pen draw, mae'n debygol mai gosod prif bibellau newydd fydd rhan fawr o'r ateb yn y tymor hir. Mae hyn yn gostus, a'r prif gyfyngiad felly yw fforddiadwyedd, sy'n dibynnu ar ganlyniad yr asesiad o'r costau y mae'r broses rheoli prisiau yn caniatáu i ni eu hadennill drwy filiau cwsmeriaid.

## YMATEB STRATEGOL 6: TUAG AT GYMRU DDI-BLWM

Mae hwn yn 'Ymateb Strategol' anarferol yn yr ystyr ei fod yn mynd y tu hwnt i'n swyddogaethau craidd, drwy osod pibellau cyflenwi newydd yn lle'r rhannau sy'n eiddo i gwsmeriaid lle y caiff plwm ei ddarganfod. Mae'r buddsoddiad hwn y tu allan i'n rhwydwaith ein hunain yn rhan o'n cyfraniad at gyflawni nodau cymdeithasol a llywodraethol ehangach, o ystyried y cysylltiad agos â'n dyletswyddau ein hunain i ddarparu dŵr yfed diogel.

Rydym yn gwneud cynnydd da yn y cyfnod buddsoddi presennol (Cynllun Rheoli Asedau 7), er gwaethaf dechrau araf oherwydd y pandemig. Ond, os bydd y gwaith yn parhau ar y cyflymder presennol, ni fyddwn yn gallu gosod pibellau newydd yn lle'r holl bibellau cyflenwi plwm erbyn 2050. Bydd angen cyflymu'r gyfradd gwariant, oni allwn ostwng y gost fesul uned yn sylweddol. Fodd bynnag, nid cost yw'r unig her – wrth i ni fwrw ymlaen â'r gwaith, rydym yn dysgu am agweddau cwsmeriaid, sut i gynnal y rhaglen yn effeithiol ochr yn ochr â sicrhau manteision eraill i gwsmeriaid, a sut i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar gwsmeriaid. Felly, byddwn yn parhau i adolygu'r Ymateb Strategol hwn, ac yn cynnal deialog barhaus â Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed ynglŷn â'r dyhead hirdymor.

## YMATEB STRATEGOL 8: SICRHAU BOD Y GWASANAETHAU A DDARPERIR I GWSMERIAID YN FFORDDIADWY

Er ein bod yn parhau i gynnal rhaglen 'tariffau cymdeithasol' sy'n arwain y sector er mwyn cefnogi'r cwsmeriaid hynny sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau dŵr, rhaid i ni ystyried y ffaith bod ein hamcan o sicrhau bod ein gwasanaethau yn fforddiadwy yn y tymor hir mewn perygl yn yr amgylchedd presennol. Mae chwyddiant yn codi'n gyflym a bydd y cynnydd syfrdanol yng nghostau biliau ynni yn 2022 yn rhoi llawer o aelwydydd dan bwysau ariannol eithafol. Bydd hyn yn golygu y bydd taro'r cydbwysedd cywir rhwng cyflawni'r atebion y bydd eu hangen i sicrhau cydnerthedd a chynaliadwyedd hirdymor a chadw biliau mor isel â phosibl yn bwysicach fyth yn yr adolygiad nesaf o brisiau. Rydym yn ymrwymedig i weithio'n agos gyda'r llywodraeth a rhanddeiliaid eraill i gyflawni hyn, gan fynd i'r afael â fforddiadwyedd cyffredinol i gwsmeriaid a'r mesurau sy'n angenrheidiol i sicrhau fforddiadwyedd i'r rhai sy'n wynebu anawsterau ariannol.

## YMATEB STRATEGOL 10: YMDRIN Â'N CWSMERIAID SY'N CAEL Y GWASANAETH GWAETHAF

Rydym yn parhau i ddilyn yr egwyddor bod pob cwsmer yn haeddu lefel dda o wasanaeth, a byddwn yn gweithio tuag at gyflawni'r nod hwn dros y tymor hir. Ar hyn o bryd, mae cost anghymesur atebion i fynd i'r afael â phroblemau ar gyfer nifer bach iawn o gwsmeriaid yn rhwystr rhag gwneud cynnydd, yn enwedig yn wyneb heriau ehangach. Ar ochr dŵr gwastraff y busnes, mae newid yn yr hinsawdd yn tueddu i arwain at fwy o lifogydd mynych, sy'n mynd yn groes i'n targed. Felly, cynnydd cyfyngedig a wnawn yn y maes hwn ar hyn o bryd o ystyried y buddsoddiad y bydd ei angen i fynd i'r afael â'r heriau a wynebwn er mwyn sicrhau gwasanaeth da i bob rhan o'n sylfaen gwsmeriaid, ond rydym yn parhau i ymgysylltu â chwsmeriaid a rhanddeiliaid er mwyn taro cydbwysedd priodol rhwng blaenoriaethau croes.

## YMATEB STRATEGOL 15: DEFNYDDIO NATUR I LEIHAU PERYGL LLIFOGYDD A LLYGREDD

Roedd ein rhaglen GlawLif yn Llanelli yn enghraifft gynnar o ffordd o gyflwyno atebion carbon isel sy'n ystyriol o natur i broblem – gormod o ddŵr ffo wyneb – y byddai angen ateb dwys o ran cyfalaf i'w datrys fel arall. Fodd bynnag, mae'n cymryd amser i ddatblygu'r dull gweithredu hwn a'i roi ar waith, ac mae'r costau yn sylweddol iawn. Ein nod yw dilyn yr un dull mewn ardaloedd trefol eraill yng Nghymru, er mwyn helpu i addasu i'r newid yn yr hinsawdd drwy arafu'r dŵr ffo i mewn i garthffosydd cyfun yn ystod stormydd glaw trwm, a all achosi llifogydd a llygredd.

Ar hyn o bryd, nid oes gennym gynlluniau pendant i roi'r dull hwn ar waith yn unman arall, oherwydd y gost a phwysau eraill ar ein cynllun buddsoddi. Fodd bynnag, gwyddom fod y cynlluniau hyn yn cynnig manteision y tu hwnt i'r prif amcan, sef lleihau dŵr ffo, gan gynnwys bioamrywiaeth, lleihau carbon a budd i iechyd meddwl. Bydd datblygu dull a dderbynnir o brisio manteision o'r fath, drwy'r dull 'amlgyfalaf' neu 'gyfrifyddu cyfalaf naturiol', yn ein helpu i gydweithio â'n partneriaid i lunio achos o blaid buddsoddiad o'r fath yn y tymor hwy.

## YMATEB STRATEGOL 16: AFONYDD A THRAETHAU GLANACH

Cafodd y maes hwn lawer iawn o sylw gan y cyhoedd, rheoleiddwyr a'r llywodraeth yn ystod 2021 wrth i bryderon ynghylch cyflwr iechyd afonydd ledled y DU dyfu, gydag afon Gwy yn amlwg yn eu plith. Ceir amrywiaeth o resymau pam nad ydym yn gwneud y cynnydd yr hoffem ei weld o ran gwella iechyd afonydd yng Nghymru. Mae hwn yn faes cymhleth lle mae nifer o gyfranwyr pwysig eraill heblaw cwmnïau dŵr a lle rydym yn gweithredu ar sail gwybodaeth amherffaith am achosion ac effeithiau. Fodd bynnag, fel y mae pethau ar hyn o bryd, ni allwn ddweud ein bod yn hyderus y byddwn yn cyflawni ein huchelgais ar gyfer cyflwr ein hafonydd erbyn 2050.

Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, bydd angen buddsoddiad sylweddol, ond bydd yr un mor bwysig dilyn dull cydgysylltiedig a hirdymor o ddatrys y broblem sy'n seiliedig ar wybodaeth gadarn ac sy'n canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf, sef yr effaith ar yr amgylchedd. Dyma'r dull rydym yn ei ddilyn, gan weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill. Rydym yn ymrwymedig i gydweithio, i fynd i'r afael â phroblemau lle mae ein hasedau'n peri risg i'r amgylchedd, ond hefyd i dreialu dulliau rheoleiddio mwy hyblyg sy'n hwyluso'r camau gweithredu cywir a ffyrdd effeithlon o sicrhau canlyniadau yn y tymor hir.

# EDRYCH YMLAEN AT PR24

**Mae ein casgliadau allweddol mewn perthynas â PR24 fel a ganlyn:**

— Ar y cyfan, mae angen i ni wneud cynnydd cyflymach o ran buddsoddi ac arloesi mewn amrywiaeth o feysydd er mwyn i ni gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer 2050.


— Dylid blaenoriaethu addasu i newid yn yr hinsawdd, lleihau allyriadau carbon a mynd i'r afael â risgiau sylweddol i wasanaethau, a bydd y rhain ymhlith ein themâu allweddol.

— Rydym yn rhagweld buddsoddiad newydd sylweddol er mwyn cyflawni rhwymedigaethau rheoleiddiol, yn enwedig mewn perthynas â safonau amgylcheddol a manylebau diogelwch argaeau. Rydym yn cydnabod yr her sy'n gysylltiedig â hyn o ran fforddiadwyedd biliau cwsmeriaid.

— O ystyried hyn, caiff yr holl gynigion buddsoddi a gyflwynir yn PR24 eu hasesu'n drwyadl o ran costeffeithiolrwydd a, lle bo modd, byddwn yn anelu at sicrhau manteision niferus o bob buddsoddiad. Byddwn hefyd yn parhau i geisio sicrhau bod ein gweithgareddau gweithredol a chynnal a chadw mor gosteffeithlon â phosibl, er mwyn cynnal ymddiriedaeth ein cwsmeriaid a chefnogaeth rheoleiddwyr.

— Bydd cydweithio'n effeithiol â'n rhanddeiliaid – â rheoleiddwyr, y llywodraeth, tirfeddianwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb, yn enwedig y rhai sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd – yn hanfodol er mwyn sicrhau gwell canlyniadau mewn modd costeffeithiol ac effeithlon o ran carbon.

> "Credwn ei bod yn rhaid i ni achub ar y cyfle hwn i ddatblygu ffyrdd mwy effeithiol o weithio, drwy arloesi rheoleiddiol a deddfwriaethol. Er mwyn gwneud hynny, bydd angen i ni gydweithio'n agos â'r llywodraeth a rheoleiddwyr, gyda phawb yn chwarae eu rhan, a bod yn agored i ffyrdd gwahanol o wneud pethau – gan ganolbwyntio ar Ddatblygu Cynaliadwy fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol."



# MYFYRDODAU I GLOI

Mae'n amlwg o'r Adolygiad hwn bod yr amgylchedd rydym yn gweithredu ynddo yn newid yn gyflym iawn. Mae'n cadarnhau, er bod strategaeth hirdymor yn hanfodol, y gall digwyddiadau annisgwyl (megis pandemig COVID-19) ddigwydd heb fawr ddim rhybudd, y gall newidiadau mewn meysydd perthnasol (megis barn y cyhoedd neu bolisi'r llywodraeth) newid yn gyflym, ac y bydd tueddiadau hirdymor cydnabyddedig hyd yn oed, (megis newid yn yr hinsawdd),  yn cyflymu ac y gallant arwain at ganlyniadau annisgwyl. Mae'n hanfodol adolygu ein strategaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod gennym y wybodaeth y bydd ei hangen arnom i wneud penderfyniadau doeth ynglŷn â'r ffordd orau o gyflawni nodau hirdymor er budd cwsmeriaid a'r amgylchedd.

Mae hefyd wedi tynnu sylw at y cyfaddawdau anodd a wynebwn wrth i ni ddechrau paratoi ein cynlluniau buddsoddi ar gyfer PR24 a thu hwnt. Ymhlith y pennaf o'r rhain mae pwysigrwydd diogelu gallu cwsmeriaid i dalu eu biliau dŵr, gan sicrhau ar yr un pryd ein bod yn gwneud y buddsoddiad angenrheidiol i osgoi creu problemau i genedlaethau'r dyfodol. Er bod biliau dŵr wedi gostwng mewn termau real dros y degawd diwethaf, rydym yn ymwybodol bod llawer o'n cwsmeriaid dan bwysau ariannol gwirioneddol yn sgil y cynnydd mewn costau byw, a'u bod yn bryderus am y dyfodol yn dilyn y pandemig. Mae gwaith ymchwil cwsmeriaid diweddar wedi cadarnhau'r safbwynt hwn, a hefyd wedi cynnig tystiolaeth y byddai'r rhan fwyaf o gwsmeriaid yn derbyn cynnydd bach yn eu biliau os bydd hynny'n angenrheidiol i fynd i'r afael â heriau'r dyfodol.

Er mwyn i ni daro'r cydbwysedd priodol rhwng biliau a buddsoddi yn y dyfodol, mae'n hanfodol ein bod yn cynnal deialog agored â chwsmeriaid a llunwyr polisïau. Bydd ein tariffau cymdeithasol yn parhau i fod yn hanfodol i helpu'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau. Fel yr unig gwmni cyfleustodau heb gyfranddalwyr yng Nghymru a Lloegr, mae ein holl ffocws ar y tymor hir, ac mae gennym fantais unigryw a fydd yn ein helpu i gadw biliau mor isel â phosibl, gan gyflawni ein cenhadaeth ar gyfer 2050 hefyd, sef dod yn wasanaeth dŵr cydnerth a chynaliadwy o'r radd flaenaf er budd cenedlaethau'r dyfodol.

